



Cynlluniau rheoli ar gyfer Parciau Cenedlaethol - canllawiau

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru, yn ogystal â dyfroedd ei glannau, fel fynonellau o gyfoeth naturiol a diwyllianol, fel sail i weithgarwch economaidd a chymdeithasol, ac fel man ar gyfer hamddena a chyfleoedd dysgu. Nod y Cyngor yw gwneud yr amgylchedd yn rhan hanfodol a phwysig o fywydau pawb yng Nghymru.

Cynlluniau
rheoli ar gyfer
Parciau
Cenedlaethol -
canllawiau

CYNNWYS

1.	Rhagarweiniad	1
2.	Egwyddorion Arweiniol	6
3.	Proses y cynllun	12
4.	Elfennau'r cynllun	18
5.	Monitro ac adolygu	27
6.	Fformat	29

Atodiad 1: Asesiad Amgylcheddol Strategol o Gynllun Rheoli'r Parciau Cenedlaethol

1. RHAGARWEINIAD

I BWY MAE'R CANLLAWIAU?

- 1.1. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a phawb sy'n gallu dylanwadu ar ddyfodol y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.
- 1.2. O dan Adran 66(1) Deddf yr Amgylchedd 1995, rhaid i bob Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi a chyhoeddi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gyfer eu Parc.
- 1.3. Er mai Awdurdod y Parciau Cenedlaethol sy'n bennaf gyfrifol am baratoi'r Cynllun Rheoli, mae'r gwaith o'i baratoi yn gofyn bod angen ymgysylltu gyda, ac ennill cefnogaeth yr holl randdeiliaid allweddol a fydd yn helpu i'w weithredu.

BETH SY'N NEWYDD YN Y CANLLAWIAU DIWYGIEDIG HYN?

- 1.4. Mae'r canllawiau hyn yn disodli'r cyhoeddiad blaenorol – Canllawiau ar gyfer Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cefn Gwlad a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ym 1997.
- 1.5. Roedd adolygu a diweddaru'r canllawiau blaenorol yn un o argymhellion penodol yr *Adolygiad o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru (2004)*¹.
- 1.6. Elfennau allweddol y diweddariad hwn yw:
 - pwyslais cryf ar y broses o baratoi'r Cynllun er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar gyfer gweithredu'r Cynllun wedyn;
 - hybu meddwl yn integredig;
 - derbyn agwedd mwy hyblyg tuag at gynnwys y Cynllun;
 - bod y Cynllun yn cysylltu i'r Adroddiadau ar Gyflwr y Parciau.

¹ Argymhelliad 8.2 yr Ymgynghorwyr Defnydd Tir et al (2004), oedd "y dylai'r Cyngor Cefn Gwlad adolygu'r canllawiau presennol ar gyfer paratoi a defnyddio Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru...gan roi mwy o bwyslais ar y broses o baratoi'r cynllun."

- 1.7. Gyda phob Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a baratoir ar ôl 2004, mae angen Asesiad Amgylcheddol Strategol (Asesiad SEA).
- 1.8. Un o brif ofynion system newydd y Cynllun Datblygu Lleol yw bod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu yn cael ei oleuo gan Werthusiad Cynaliadwyedd sy'n ymgorffori Asesiad SEA. Felly, mae'n bwysig bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn integreiddio'r prosesau o gynhyrchu Cynlluniau Rheoli a Chynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau'r fantais orau i'r Cynllun Rheoli ac i'r Parc Cenedlaethol tra'n lleihau unrhyw ddyblygu ymdrechion.
- 1.9. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau penodol ar baratoi elfen Asesiad SEA y Cynllun Rheoli ac ar sut i gyfuno'r broses o baratoi'r Cynllun Rheoli a'r Asesiad. Ceir canllawiau manwl ar broses y Cynllun Datblygu Lleol yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol.

NEWIDIADAU ERS Y CANLLAWIAU DIWETHAF

- 1.10. Mae llawer wedi newid ers 1997 pan gynhyrchwyd y Canllawiau diwethaf ar gyfer y Cynllun Rheoli. Datganolwyd grym i Gymru ym 1999 pan sefydlwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn unigryw ymhlith gwledydd yr Undeb Ewropeaidd, mae gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd cyfreithiol o dan Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1999 i hybu datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wneir ganddi. Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'i Gynllun Gweithredu (2004-2007) yn un o 'gonglfeini' cyfarwyddyd strategol y Llywodraeth, ynghyd â'r ddogfen *Cymru: Gwlad Well* (sy'n cyflwyno agenda pedair blynedd y Llywodraeth), a Chynllun Gofodol Cymru a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 17 Tachwedd 2004.
- 1.11. Cyflwynodd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000 dir mynediad agored.
- 1.12. Yn 2001, cyflwynwyd Cyfarwydddeb Ewropeaidd yn mynnu bod Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei wneud ar gyfer pob Cynllun a Rhaglen o fis Gorffennaf 2004 ymlaen, ac yn 2004 pan basiwyd y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol,

cyflwynwyd system newydd o baratoi Cynllun Datblygu Lleol a oedd yn mynnu bod y corff sy'n cynhyrchu'r Cynllun hefyd yn cyflawni Asesiad SEA er mwyn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

1.13 Yn dilyn cytuno i ddiwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin yn 2003, a'i gyflwyno yn Ionawr 2005, datgysylltwyd taliadau fferm o gynhyrchu amaethyddol. Daeth y Cynllun Taliad Sengl i rym o fis Ionawr 2005 ymlaen, a rhaid i bawb sy'n derbyn y taliad hwn gydymffurfio ag ystod o Ofynion Rheoli Statudol a safonau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da. Nid yw goblygiadau'r Taliad Sengl yn gwbl glir eto, er y bydd newidiadau efallai yn y math o dda byw a gedwir, ac yn nwyster y stocio, gan effeithio ar ddefnydd tir. Mae'r cynllun Tir Mynydd (sy'n darparu cymhorthdal ychwanegol i ffermydd yn yr Ardaloedd Llai Ffafirol) yn cael ei adolygu a gall hwnnw hefyd newid yn sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.

1.14. Mae Cynllun Datblygu Gwledig newydd (2007-2013) ar gyfer Cymru ('Piler 2 y Polisi Amaeth Cyffredin) yn cael ei ddatblygu er mwyn tywys ystod o gynlluniau dros y cyfnod cyllido. Mae'r cynllun yn cynnwys y mesurau amaeth-amgylchedd, gan gynnwys Tir Gofal, a'r 'cynllun lefel mynediad' newydd o dan Dir Cynnal. Bydd y cynlluniau amaeth-amgylchedd yn cael eu hadolygu ymhellach yng Nghymru yn 2007-08.

1.15. Yn 2001, cyhoeddodd y Cynulliad ei strategaeth ar gyfer Coetiroedd i Gymru, sy'n cyflwyno gweledigaeth ac amcanion strategol. Mae'r Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd yn helpu'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru i weithredu'r strategaeth hon. Yn 2006, bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn lansio ei gynllun grantiau newydd – Coetiroedd Gwell i Gymru - yn swyddogol, sy'n seiliedig ar gynhyrchu cynlluniau rheoli ac sy'n cyd-fynd â Chynllun Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig.

PWYSIGRWYDD Y PARCIAU CENEDLAETHOL

1.16 Mae'r Parciau Cenedlaethol yn cynnwys rhai o'r ardaloedd gwledig mwyaf prydferth, ysblennydd a godidog yng Nghymru. Ynghyd ag Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae'r tirluniau



hyn yn rhai cenedlaethol bwysig, ac mae'r dynodiad hwn yn rhoi'r statws cadwraeth tirlun a harddwch golygfaol uchaf iddynt. Mae miliynau o ymwelwyr yn mwynhau'r nodweddion hyn pob blwyddyn.

1.17. Adlewyrchir eu pwysigrwydd yn y weledigaeth ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Fel a nodir yn yr Adolygiad o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru (2004):

"Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn dirluniau o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n enghreifftiau i raddau helaeth o'r hyn sy'n wahanol ac yn arbennig am Gymru wledig yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol. Maent wrth wraidd hunaniaeth Cymru wledig, i bobl Cymru a'r byd ehangach. Mae ganddynt botensial enfawr i gyfoethogi bywydau pobl yng Nghymru a thu hwnt, ac i gyfrannu'n bwysig at economi Cymru. Maent yn dirluniau diwylliannol, wedi'u llunio gan eu cymunedau dros filenia, lle y mae'r rhyngweithio rhwng pobl a lle yn greiddiol i'r cymeriad. Maent yn lleoedd lle yr eir ar drywydd yr arferion datblygu cynaliadwy gorau er budd yr amgylchedd, ac economïau a chymunedau'r Parciau – lle y mae pob gweithgaredd yn atgyfnerthu ac yn coleddu rhinweddau arbennig yr ardaloedd pwysig hyn ac yn anelu at barchu a gwella bywydau pobl leol. Maent yn lleoedd lle

y mae PAWB a all ddylanwadu ar eu dyfodol yn cydweithio er mwyn gwarchod a gwella eu harddwch naturiol a'u hunaniaeth ddiwylliannol. Maent yn lleoedd sy'n arbrofi ag ymagweddau newydd ym maes datblygiad cynaliadwy a chadwraeth amgylcheddol, gan ddarparu enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer Cymru gyfan, a helpu i lunio a thywys polisi ac arfer gwledig y dyfodol."

TIRLUNIAU DIWYLLIANNOL

1.18 Yn wahanol i'r parciau diffeithwch mewn rhai gwledydd eraill, mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn dirluniau diwylliannol, wedi eu ffurfio gan ddylanwad pobl dros filoedd o flynyddoedd. Mae'r rhan fwyaf o dir y Parciau yn nwylo preifat a'u tirluniau yn gynnwys ymyrraeth dyn a phrosesau naturiol. Dyma pam y mae'r Parciau wedi eu dosbarthu fel ardaloedd gwarchodedig Categori V gan yr IUCN – Undeb Cadwraeth y Byd.

Blwch 1.1

Ardaloedd Gwarchodedig Categori V

Diffinnir Ardaloedd Gwarchodedig Categori V yng Nghantlawiau Categoriâu Rheoli Ardaloedd Gwarchodedig 1994 (IUCN) fel:

"Ardal o dir, gydag arfordir a moroedd fel bo'n briodol, lle mae pobl a natur yn rhyngweithio dros amser wedi creu ardal o gymeriad unigryw sydd o werth esthetig, ecolegol a/neu ddiwylliannol arbennig, ac yn aml gydag amrywiaeth biolegol uchel. Mae diogelu cyfanrwydd y gydberthynas hon yn hollbwysig er mwyn gwarchod a chynnal ac i esblygiad ardal o'r fath."

1.19 Mae'n anochel a phriodol y bydd y tirluniau hyn yn parhau i esblygu ond mae angen i hyn ddigwydd mewn ffordd sy'n diogelu eu nodweddion arbennig a'r cymunedau sy'n eu cynnal a'u rheoli.

Blwch 1.2

Egwyddorion ar gyfer rheoli Ardaloedd Gwarchodedig Categori V

Fel rhan o'r teulu o ardaloedd gwarchodedig Categori V, mae'r egwyddorion a ddylai dywys rheolaeth y Parciau Cenedlaethol Cymreig yn cynnwys :

- ☐ Gwarchod y tirlun, bioamrywiaeth a gwerthoedd diwylliannol fel ffocws canolog ar gyfer ardaloedd gwarchodedig Categori V.

- ☐ Canolbwyntio'r rheoli hwn yn y mannau lle mae pobl a natur yn rhyngweithio.
- ☐ Gweld pobl fel stiwardiaid y tirlun.
- ☐ Cyflawni'r gwaith o reoli gyda, a thrwy bobl leol.
- ☐ Dylai'r rheoli fod yn seiliedig ar gydweithredu.
- ☐ Amgylchedd gwleidyddol ac economaidd sy'n cefnogi rheolaeth effeithiol.
- ☐ Rheoli i'r safon broffesiynol uchaf bosibl, sy'n hyblyg ac yn addasu'n hawdd.
- ☐ Mesur llwyddiant y rheoli yn nhermau amgylcheddol a chymdeithasol.

PWRPASAU'R PARCIAU CENEDLAETHOL

1.20 **Pwrpasau:** Mae dyfodol y Parciau Cenedlaethol wedi'i dywys gan ddau bwrpas fel a nodir yn Adran 61 Deddf yr Amgylchedd 1995:

- (a) **Gwarchod a gwella** "gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol"
- (b) **Deall a mwynhau** "hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig [y Parciau]."

1.21 Angorir y rhain gan Egwyddor Sandford, sy'n cadarnhau y dylid rhoi blaenoriaeth i'r pwrpas cyntaf dros yr ail mewn achosion lle ceir gwrthdaro amlwg rhyngddynt.

1.22. I adlewyrchu'r ffaith fod y Parciau Cenedlaethol yn dirluniau diwylliannol gyda phoblogaethau preswyl, mae gan Awdurdodau'r Parciau hefyd ddyletswydd o dan Adran 62(1) Deddf yr Amgylchedd i gyflawni pwrpasau'r Parciau er mwyn: 'meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol...' Ond dylid cyflawni'r dyletswydd hwn o fewn cyd-destun y pwrpasau i integreiddio amcanion cymdeithasol ac economaidd â gwarchod a gwella nodweddion amgylcheddol yr ardal ddynodedig.

² Phillips, A. (2002) Canllawiau Rheoli ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig Categori V a Thirluniau / Morlduniau Gwarchodedig (IUCN). IUCN – Undeb Cadwraeth y Byd.

- 1.23 I weithredu'r dyletswydd hwn, deallir bod yn rhaid i Awdurdodau'r Parciau weithio'n agos â'r cyrff hynny sy'n bennaf gyfrifol am y pethau hyn, nid lleiaf yr awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus

RÔL AWDURDODAU'R PARCIAU CENEDLAETHOL

- 1.24. Rôl ganolog Awdurdodau'r Parciau yw gweithredu er mwyn cyflawni pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol.
- 1.25. Rôl ganolog y Cynllun Rheoli yw tywys y gwaith o gyflawni pwrpasau'r Parciau a dyletswydd Adran 62(1), gyda chymorth swyddogaeth gynllunio statudol y Parciau.

DYLETSWYDD ADRAN 62(2)

- 1.26. Mae'n bwysig cofio, wrth geisio cyflawni pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol, nad oes disgwyl i'r Awdurdodau weithio ar eu pen eu hunain – gorchwyl cyfun ydyw. O dan Adran 62(2) Deddf yr Amgylchedd 1995, mae gan yr awdurdodau perthnasol³ ddyletswydd i "ystyried" pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol wrth gyflawni eu gwaith hwythau. Mae hyn yn pwysleisio bod angen i gyflawniad pwrpasau'r Parciau drwy Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ddigwydd mewn partneriaeth ag eraill – y prif wneuthurwyr polisi a'r prif gyrff cyllido, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth ac awdurdodau lleol – a chyda rhai y mae eu gwaith beunyddiol wedi cyfrannu at greu'r tirlun fel a welir heddiw – ffermwyr, tîrfeiddianwyr, grwpiau cadwraeth a Chyrff Anllywodraethol, busnesau lleol a chymunedau lleol y Parciau.



³ Mae'r awdurdodau perthnasol yn cynnwys:

- Unrhyw Weinidog y Goron
- Unrhyw gorff cyhoeddus (gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chynghorau plwyf)
- Unrhyw ymgymerwr statudol
- Unrhyw berson yn dal swydd gyhoeddus

PAM FOD CYNLLUNIAU RHEOLI Y PARCIAU CENEDLAETHOL MOR BWYSIG?

- 1.27. Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen bolisi bwysicaf un ar gyfer y Parciau Cenedlaethol. Cynllun ydyw ar gyfer ardal ddaearyddol y Parc ac nid ar gyfer unrhyw awdurdod unigol. Fel dogfen strategol a throsfwaol, mae'n cydlynu ac yn integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithredoedd eraill yn y Parc Cenedlaethol – lle mae'r rhain yn effeithio ar bwrpasau a dyletswydd y Parc. Felly, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r prif gyfrwng ar gyfer sicrhau bod darpariaethau statudol Deddf yr Amgylchedd 1995 yn cael eu cwrdd, gan gynnwys y dyletswyddau sydd ar bob corff cyhoeddus o dan Adran 62(2).

AT BWY YR ANELIR CYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL?

- 1.28. Anelir Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol at bawb sydd â dylanwad dros ddyfodol y Parciau. Ni ddylid gwneud unrhyw benderfyniad o bwys sy'n effeithio ar ddyfodol y Parc heb ystyried ei Gynllun Rheoli yn gyntaf. Dylai cynhyrchu'r Cynllun fod wrth wraidd y broses o atgyfnerthu'r partneriaethau hynny a fydd yn greiddiol i helpu i gyflawni gweledigaeth ac amcanion y Parc.

ADOLYGU'R CYNLLUN – PA MOR AML?

- 1.29. O ystyried pwysigrwydd canolog Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, dylid ei ddiweddarau a'i adolygu yn rheolaidd, ac mae'n rheidrwdd cyfreithiol ar Awdurdodau'r Parciau i adolygu'r Cynllun bob pum mlynedd, yn ddelfrydol ar yr un pryd â'r Cynllun Datblygu Lleol.

ROLAU A PHWRPASAU CYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU ERAILL

- 1.30. Mae'r fframwaith strategol ar gyfer cynllunio a rheoli at y dyfodol mewn Parciau Cenedlaethol yn cael ei ddylanwadu gan ddwy broses gynllunio arall: y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

- 1.31. Y tu allan i'r Parciau Cenedlaethol, rhaid i gynghorau sir / bwrdeistref sirol baratoi strategaethau cymunedol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae strategaeth gymunedol yn nodi'r weledigaeth ar gyfer sut y bydd yr ardal sirol ar y cyfan, rhannau penodol ohoni, neu gymunedau lleol, yn datblygu dros y 10/15 mlynedd nesaf. Ei nod yw gwella ansawdd bywyd pobl leol.
- 1.32. O fewn y Parciau Cenedlaethol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n cyflawni swyddogaeth y Strategaeth Gymunedol.
- 1.33. Mae dimensiwn cynllunio defnydd tir y Cynllun Rheoli yn cael ei weithredu drwy'r Cynllun Datblygu Lleol, fel cynllun statudol, sydd gan bob Parc Cenedlaethol.
- 1.34. Mae gan gynllunio datblygu rôl ganolog i'w chwarae mewn cynnal cymeriad y Parciau ac mewn meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau'r Parc. Diben y system gynllunio yw helpu'r datblygiad iawn i ddigwydd yn y lle iawn er mwyn diwallu anghenion cymunedau'r Parc a chefnogi newidiadau sy'n dod â budd cadarnhaol i'r Parc Cenedlaethol yn unol â phwrpasau'r Parciau ac amcanion y Cynllun Rheoli. Mae pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol, a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol, a gefnogir gan Egwyddor Sandford a Phrawf Silkin⁴, yn cynnig fframwaith statudol clir ar gyfer cynllunio datblygu o fewn y Parciau Cenedlaethol.
- 1.35. Yn y cyswllt hwn, Cynllun Datblygu Lleol y Parc yw un o'r prif gyfryngau ar gyfer darparu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
- 1.36. Rhoddir cyngor manwl ar y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys y Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad SEA, yn rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol Cymru (2005) ac yn y Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (2006). Lle bo'n bosibl, dylid integreiddio'r broses o baratoi Cynllun Rheoli â phroses y Cynllun Datblygu Lleol – hynny yw, cynhyrchu'r ddau gynllun ar yr un pryd.

⁴ Mae Prawf Silkin ar gyfer datblygiadau mawr yn gofyn "mae'n rhaid i'r datblygiad fod yn wirioneddol angenrheidiol er budd y wlad ac nid oes unrhyw ateb, ffynhonnell neu gyflenwad arall posibl"

2. EGWYDDORION ARWEINIOL

- 2.1. Argymhellir y dylai Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wahaniaethu'n glir rhwng ei uchelgeisiau ar gyfer y Parc – a ddiffinnir mewn gweledigaeth ac mewn nodau ac amcanion i'w chynnal – a sut y darperir y weledigaeth a'r amcanion hynny – drwy bolisiau a Chynllun Gweithredu (mwy o fanylion ym Mhennod 4).
- 2.2. Y prif egwyddorion a ddylai dywys paratoad a chynnwys Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw:

Paratoi'r Cynllun

- Dylid ei baratoi gyda chyfranogiad gweithredol y rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned ehangach, ac annog cydberchnogaeth o, a chyd-gefnogaeth i'r amcanion, polisiau a'r gweithredoedd a gyflwynir gan y Cynllun (Pennod 3).
- I adeiladu ar yr uchod, bydd gweithio mewn partneriaeth yn un o'r rhagofynion hanfodol ar gyfer darparu'r Cynllun, gyda'r dyletswydd Adran 62(2) yn rhoi cyfle i annog ymgysylltiad rhagweithiol gyda'r awdurdodau perthnasol a chyrrff eraill wrth gyflawni pwrpasau a dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parc Cenedlaethol.
- Dylai fod yn fodd i gyrraedd y nod ac nid yn nod ynddo'i hun – rhaid i'r Cynllun arwain yn glir at weithredu priodol, a llawer ohono drwy bartneriaeth. Mae hyn yn pwysleisio pa mor bwysig yw sicrhau ymrwymiad i weithrediad y polisiau perthnasol.

Cynnwys y Cynllun

- Dylai'r Cynllun fod yn uchelgeisiol a chydabod pwysigrwydd cenedlaethol y Parciau.
- Dylai ganolbwyntio ar gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol o fewn yr agenda datblygu cynaliadwy ehangach. Dylai'r pwrpasau hyn osod yr agenda ar gyfer cynnwys y Cynllun. Felly, dylai unrhyw agweddau economaidd-gymdeithasol ar y Cynllun (sy'n amlwg angen sylw er mwyn cwrdd â'r dyletswydd Adran 62(1)) gysylltu'n ôl i ddarparu pwrpasau'r Parc. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid chwilio am gysylltiadau sy'n

dangos 'mantais i bopeth', er enghraifft i brofi cyfraniad y Parciau Cenedlaethol at amcanion iechyd a lles.

- Dylai nodi a cheisio gwarchod a gwella nodweddion arbennig y Parc.
- Dylai hyrwyddo pwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol y Parciau Cenedlaethol, tra'n adlewyrchu amgylchiadau lleol.
- Dylai datblygu cynaliadwy angori'r modd y mae pwrpasau a dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parciau yn cael eu darparu (trafodir hyn ymhellach isod).
- Dylai ystyried sut i ymateb yn briodol i effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd ar y Parc a pha gamau lleol y gellir eu cymryd i leihau unrhyw gyfraniad at y newid yn yr hinsawdd fel esiamplau o ddatblygu cynaliadwy (gweithredu'n lleol, meddwl yn fyd-eang).
- Dylai ddangos meddwl integredig clir rhwng gwahanol feysydd pwnc yn y Cynllun a rhwng gwahanol ddulliau darparu, er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflawni'n ymarferol.
- Dylai gysylltu i bolisiau a rhaglenni rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a allai, gyda'i gilydd, helpu i gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol.
- Dylai ddylanwadu ar ac ychwanegu gwerth at y cynlluniau a'r strategaethau sydd eisoes yn bodoli, a rhai arfaethedig, sy'n effeithio ar y Parciau Cenedlaethol ac a gynhyrchir gan eraill, er enghraifft gan awdurdodau lleol yn y Parciau, er mwyn sicrhau bod gan yr holl weithgareddau yn y Parciau ffocws a rhesymeg sy'n benodol i'r Parc a'u bod yn dilyn agenda gytunedig ar gyfer y Parc.
- Dylai edrych yn ôl ac ymlaen, a dysgu o dueddiadau'r gorffennol ac effeithiau gweithredu blaenorol tra'n cymhwyso'r gwersi hyn i'r dyfodol ac ystyried sut y gellir ymdrin ag unrhyw newidiadau disgwyliedig o fewn y Parciau Cenedlaethol. Er enghraifft, mae hyn yn arbennig o bwysig yn wyneb y newid yn yr hinsawdd a'r newidiadau pellgyrhaeddol yn y cymorth i amaethyddiaeth o dan y Polisi Amaeth Cyffredin.

- Dylai amcanion a pholisïau'r Cynllun fod yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Dylid defnyddio unrhyw gyfresi data presennol, lle mae'r rhain yn berthnasol, a sicrhau eu bod yn ymwneud ag ardal y Parc Cenedlaethol ac nad ydynt yn ddehongliad o ardaloedd awdurdod lleol sy'n croesi'r Parc, a allai gyda'i gilydd fod â chymeriad tra gwahanol i'r Parc. Dylid osgoi gwneud tybiaethau a honiadau na ellir eu cadarnhau. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw'r cydgysylltiad rhwng y data a gedwir gan Awdurdod y Parc a'i bartneriaid, ac yn yr Adroddiadau ar Gyflwr y Parc (paragraffau 3.16 – 3.20).
- Dylid ei fonitro'n glir o ran ei allbwn yn erbyn targedau a cherrig milltir a nodir yn y Cynllun Gweithredu ac o ran ei ganlyniadau yng nghyswllt cyflawni amcanion y Cynllun. Dylai trefniadau fod yn eu lle i wneud newidiadau os yw'r monitro'n awgrymu bod angen dilyn trywydd arall.
- Drwy adeiladu ar yr uchod, dylai fod yn Gynllun canolog ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol a chynnig fframwaith, ynghyd â'r Cynllun Datblygu Lleol, ar gyfer strategaethau a rhaglenni mwy manwl yr Awdurdod, gan gynnwys ei gynllun busnes blynyddol (Pennod 6).

DATBLYGU CYNALIADWY O FEWN Y PARCIAU CENEDLAETHOL

- 2.3 Fel y soniwyd eisoes, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddyletswydd cyfreithiol o dan Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1999 i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wneir ganddi.
- 2.4 O dan y gyfraith, mae'n ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad baratoi Cynllun yn nodi sut y bydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth ymarfer ei holl swyddogaethau. Ar 16 Mawrth 2004, mabwysiadodd y Cynulliad Gynllun Datblygu Cynaliadwy diwygiedig, Dechrau Byw'n Wahanol. Mae'r Cynllun hwn yn cael ei ddarparu drwy Gynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004-2007 (Hydref 2004).

- 2.5 Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn ffurfio rhan o Fframwaith Strategol ehangach y DU ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. O fewn y fframwaith hwn, yr egwyddorion cyffredin a fydd yn tywys darparu datblygu cynaliadwy yn y DU, ac a gytunwyd gan Lywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon yw:

- *Byw o fewn Cyfyngiadau Amgylcheddol.* Parchu cyfyngiadau amgylchedd, adnoddau a bioamrywiaeth y blaned – gwella ein hamgylchedd a sicrhau nad ydym yn amharu ar yr adnoddau naturiol sydd eu hangen arnom i gynnal bywyd a'n bod yn eu cadw felly i'r cenedlaethau a ddaw.
- *Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Chyfiawn.* Cwrdd â gwahanol anghenion yr holl bobl yn y cymunedau presennol a rhai'r dyfodol, hybu lles personol, cydlyniant cymdeithasol a chynhwysiant, a chreu cyfleoedd cyfartal i bawb.

Yn eu tro, mae'r egwyddorion sylfaenol hyn wedi eu hangori gan dair egwyddor bellach:

- *Cyflawni Economi Gynaliadwy.* Creu economi gref, sefydlog a chynaliadwy sy'n darparu ffyniant a chyfleoedd i bawb, a lle mae costau amgylcheddol a chymdeithasol yn disgyn ar y rhai sy'n eu hachosi (y llygrwr yn talu) a lle ceir cymhellion i ddefnyddio adnoddau yn effeithlon.
- *Hyrwyddo Llywodraethu Da.* Hybu systemau llywodraethu cyfranogol ac effeithiol ar bob lefel mewn cymdeithas – ysgogi creadigrwydd, egni ac amrywiaeth pobl.
- *Defnyddio Gwyddoniaeth Sain yn Gyfrifol.* Sicrhau bod polisi'n cael ei ddatblygu a'i weithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, tra'n ystyried ansicrwydd gwyddonol (drwy'r egwyddor ragofalus) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd y cyhoedd.

- 2.6 O dan yr egwyddorion hyn, mae gofalu am yr amgylchedd yn cael ei weld fel man cychwyn sylfaenol. Mae byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol yn un o ragofalon ein dyfodol.

⁵ Fel a nodir yn nogfen Llywodraeth Ei Mawrhydi (2005) *Securing the Future: Delivering the UK Government Sustainable Development Strategy*.

2.7 Adlewyrchir yr egwyddorion hyn yng Nghynllun Gofodol Cymru 2005, sydd wedi'i strwythuro yn ôl pump o brif themâu:

- Creu cymunedau cynaliadwy
- Hyrwyddo economi gynaliadwy
- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy
- Parchu gwahaniaeth.

2.8 Ar gyfer ardaloedd gwledig, a'r Parciau Cenedlaethol yn enwedig, gallai'r term 'datblygu' yn 'datblygu cynaliadwy' fod yn gamarweiniol. Mae'n awgrymu bod datblygu cynaliadwy ond yn ymwneud â phenderfyniadau yng nghyswllt datblygu adeiledig, ond mewn gwirionedd mae ei gylch gorchwyl yn cofleidio popeth, ac yn gofyn bod unrhyw benderfyniad sy'n effeithio ar ddyfodol yr ardal yn ystyried yr amgylchedd, yr economi a'r gymuned gyda'i gilydd ac er budd i bob un, gyda phwyslais ar ddod o hyd i atebion lle mae pawb yn ennill.

2.9 Yr hyn sy'n gwahaniaethu datblygu cynaliadwy o fewn y Parciau yn amlwg oddi wrth ddatblygu cynaliadwy yng nghefn gwlad ehangach yw ei orchwyl i helpu i gyflawni pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol – sef adlewyrchu blaenoriaeth amgylcheddol eu dynodiad. Felly, mae swyddogaethau canolog y Parciau o warchod a gwella'r tirlun, bioamrywiaeth, y dreftadaeth ddiwylliannol a'r adnoddau naturiol – rheolaeth tir gynaliadwy – yn gorwedd wrth galon datblygu cynaliadwy yn y Parciau.

2.10 Dylid cysylltu dyheadau cymdeithasol ac economaidd y cymunedau yn y Parciau Cenedlaethol yn agos i bwrpasau'r Parciau gan fod eu nodweddion arbennig yn cael eu dylanwadu i raddau helaeth iawn gan weithgareddau pobl.

2.11 Yng nghanllawiau'r Llywodraeth, disgwylir yn glir i'r Parciau Cenedlaethol wneud cyfraniad cryf at ddatblygu cynaliadwy ar bob lefel – yn genedlaethol drwy gynnal a gwella eu harddwch naturiol ac yn lleol drwy gyflawni datblygu cynaliadwy a'i hyrwyddo'n ehangach. Mae hyn yn cadarnhau pa mor bwysig yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth galon Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Angorir y rôl hon ymhellach

ar lefel ryngwladol gan y disgwyliadau ar gyfer Ardaloedd Gwarchodedig Categori V. Mae Datganiad Eryri a ddaeth allan o gynhadledd EUROPARC 2002 yn dechrau gyda:

“Mae gan ardaloedd gwarchodedig lawer iawn i'w gyfrannu at ysfaf'r byd am ddatblygu cynaliadwy....mae gan Dirluniau Gwarchodedig Ewrop gyfraniad pwysig iawn i'w wneud. Drwy gyfuno'r naturiol a'r diwylliannol, maent yn nodweddiadol o'r harddwch, y bioamrywiaeth cyfoethog a'r 'naws lle' unigryw sy'n gallu deillio o'r ymgysylltiad cytun rhwng pobl a natur. Maent yn cynnig manteision economaidd a chymdeithasol, ynghyd â budd amgylcheddol, i'w hardaloedd”.

2.12 Mae'n dilyn bod gweithio mewn partneriaeth yn greiddiol i ddarparu datblygu cynaliadwy o fewn y Parciau Cenedlaethol oherwydd amrediad y buddiannau sy'n cyfuno oddi mewn iddynt.

2.13 Mae nifer o faterion yn wynebu'r Parciau – ein tirluniau mwyaf gwerthfawr – yn ein hymchwil am ffordd ymlaen fwy cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

■ Polisiâu amaeth a choedwigaeth ar gyfer y dyfodol. Yn y gorffennol, mae'r rhain wedi cael effeithiau dwfn ac andwyol yn aml ar gymeriad y Parciau Cenedlaethol, ac wedi canolbwyntio'n unig ar gynhyrchu a hynny ar draul cadwraeth amgylcheddol yn aml. Eto, mae ffocws y ddau faes bellach yn symud, drwy ddiwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin a pholisi cenedlaethol, tuag at ddarparu ystod o fanteision cyhoeddus, ac yn cynnig cyfleoedd i reoli mwy o dir yn fwy cynaliadwy.

■ Twristiaeth a Hamdden. Fel y gwelsom yn glir yn ystod epidemig Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001, mae twristiaeth a hamdden bellach yn rhan ganolog o economi leol y Parciau Cenedlaethol ac yn gallu bod yn gyfiawnhad economaidd dros reoli tir yn gynaliadwy. Ond gall y ddau fod yn anghynaliadwy os yw maint eu gweithgareddau a'r patrymau teithio sy'n eu cynnal yn dinistrio'r union bethau sy'n denu'r ymwelwyr yn y lle cyntaf.

■ Materion trafnidiaeth. Mae'r twf sydyn iawn yn y defnydd o geir mewn ardaloedd gwledig (yn bennaf oherwydd mwy o gymudo a theithio hamdden) yn cyfrannu at lefelau CO² byd-eang, yn llygru'r aer ac yn bygwth tangnefedd y Parciau Cenedlaethol. Gyda theuluoedd yn teithio'n bell bob dydd, mae hefyd yn bygwth darpariaeth gwasanaethau lleol. Ar yr un pryd, gall seilwaith ffyrdd newydd gael effaith andwyol ar ffabrig ffisegol y Parciau.

■ Darpariaeth tai fforddiadwy. Dyma un o'r materion mwyaf taer bellach sy'n wynebu nifer o gymunedau, gan gynnwys rhai yn y Parciau Cenedlaethol, wrth i brisiau tai godi ymhellach allan o gyrraedd preswylwyr lleol o ganlyniad i gyfuniad o gymudwyr a phobl yn ymddeol yn prynu tai, a'r farchnad ail dai, ac wedi'i waethgu ymhellach gan aelwydydd sydd wedi mynd yn llai.

■ Y galw am fwynau. Mae cloddio am fwynau yn lleihau ein hadnoddau naturiol cyfyngedig ac yn cael effaith union ac anuniongyrchol ar yr amgylchedd lleol, ond gall hefyd fod yn weithgaredd economaidd pwysig. Yn y cyd-destun hwn, mae'n hanfodol dod o hyd i ffordd ymlaen nad yw'n amharu ar ansawdd amgylcheddol y Parciau.

■ Cynhyrchu a gwaredu gwastraff. Gellir gwneud llawr mwy i leihau'r gwastraff a gynhyrchir gan gymunedau a diwydiannau yn y Parciau, ac i aildefnyddio, ailgylchu a gwaredu gwastraff mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

■ Cynhyrchu ynni a'r galw am ddŵr. O ystyried rhagoriaeth amgylcheddol y Parciau Cenedlaethol, nid dyma'r manau iawn i geisio diwallu'r galw cenedlaethol neu ranbarthol am drydan neu ddŵr os bydd hyn yn amharu ar eu hansawdd amgylcheddol. Ar y llaw arall, dylid annog yn gryf unrhyw ddulliau dyfeisgar o ddiwallu anghenion ynni

ac adnoddau naturiol lleol ar raddfa ac o fath sy'n gydnaws â'r ardal leol. Yn wir, dylai pwyslais ar gymunedau hunan-gynhaliol fel rhan o agenda datblygu cynaliadwy'r Parciau Cenedlaethol fod yn nod pwysig.

YR ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL (ASESIAD SEA)

2.14. Rhaid i Gynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol gael Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae proses yr Asesiad fel bo'n berthnasol i Gynlluniau Rheoli'r Parciau wedi ei hegluro yn Atodiad 1 y canllawiau hyn. Mae'r Atodiad hwn hefyd yn ystyried sut y mae'r Asesiad SEA o'r Cynllun Rheoli yn cydgyssylltu â gwerthusiad cynlluniau a rhaglenni eraill, nid lleiaf y Gwerthusiad Cynaliadwyedd / Asesiad SEA ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol y Parciau.

2.15. Ystyrir sut y gall prosesau paratoi'r Cynllun a'r Asesiad SEA gydweithio er budd ei gilydd yn y rhan nesaf, sef paratoi'r Cynllun. Nodir y berthynas rhwng y camau o baratoi'r Cynllun Rheoli, a'r camau o baratoi Asesiad SEA ar gyfer y Cynllun Rheoli, yn Ffigwr 2.1, tra bod Ffigwr 2.2 yn dangos y berthynas rhwng paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a'i Werthusiad Cynaliadwyedd. Dangosir y gydberthynas rhwng y camau hyn ar wahân yn Ffigwr 1 ar ddiwedd yr Atodiad i'r canllawiau hyn.

Ffigwr 2.1: Y broses o baratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac o baratoi'r Asesiad SEA ar gyfer y Cynllun Rheoli

Y Cynllun Rheoli

1. Sefydlu dealltwriaeth o gyflwr y Parc Cenedlaethol

2. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a grymuso cymunedau lleol

3. Edrych ar opsiynau ar gyfer y Parc Cenedlaethol (creu senarios)

4. Cytuno ar weledigaeth ac amcanion rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol

5. Cytuno ar bolisiau'r Cynllun

6. Cytuno ar, a gweithredu'r camau sy'n llifo o'r Cynllun

7. Ymgynghori ar y Cynllun

8. Cydlynu a rhannu'r gwaith o fonitro'r Cynllun

9. Adolygu'r Cynllun

YR ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL

CAM A

CWMPASU

1. Cadarnhau manylion methodoleg yr Asesiad SEA
2. Nodi pa faterion yw'r rhai allweddol
3. Casglu data cychwynnol
4. Darogan tueddiadau amgylcheddol yn absenoldeb Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
5. Cadarnhau sgôp yr Asesiad SEA
6. Ystyried cynlluniau a pholisïau perthnasol
7. Gosod amcanion amgylcheddol
8. Gosod amcanion cynaliadwyedd
9. Paratoi Adroddiad Cwmpasu
10. Ystyried opsiynau
11. Ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu

CAM B

ASESIADAU

12. Yr asesiad amgylcheddol
13. Y Gwerthusiad Cynaliadwyedd

CAM C

PARATOI ADRODDIAD

14. Paratoi Adroddiad Amgylcheddol

CAM Ch


YMGYNGHORI

15. Ymgynghori ar yr Adroddiad Amg.
16. Diweddarau'r Adroddiad Amgylcheddol

CAM D

MONITRO

Ffigwr 2.2: Y prif gamau yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a'i Werthusiad Cynaliadwyedd cysylltiedig



Addaswyd o Lawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol yn Ffigwr 3.1

3. PROSES Y CYNLLUN

- 3.1 Mae'r broses o baratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol cyn bwysiced â'r Cynllun ei hun – sef y broses o ennyn cefnogaeth ac ymrwymiad ac, yn y pen draw, o sicrhau ei gydweithrediad. Mae angen gweithio mewn partneriaeth pob cam o'r ffordd, gyda phwyslais ar feddwl yn integredig ac ar farn a phersbectif cyffredin. Mae'n gofyn am ddealltwriaeth ganolog o bwrpasau a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, a sut i'w mwynhau a'u deall orau. Mae hefyd angen barn gytun ynghylch sut i sicrhau lles cymunedau'r Parc mewn ffyrdd sy'n cryfhau darparu pwrpasau'r Parc.
- 3.2 Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar paham a phryd y mae ymgysylltu â phartneriaid a'r gymuned ehangach yn briodol yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun. Mater i Awdurdodau'r Parciau fydd penderfynu sut i ymgysylltu, fel eu bod yn adlewyrchu amgylchiadau lleol a'u hymgysylltiad presennol gyda rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned ehangach.
- 3.3 Yn y pen draw, rhaid i Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol gynhyrchu allbwn a chanlyniadau cyffredin. Mae llawer iawn o lwyddiant y Cynllun Rheoli yn dibynnu ar gysylltiadau gweithio da rhwng sefydliadau ac unigolion.
- 3.4 Felly, nid yw cyhoeddiad y Cynllun yn gymaint o ddigwyddiad nac yn ddiwedd ynddo'i hun ag o berthynas barhaus rhwng Awdurdod y Parc a'i holl bartneriaid, a rhwng y partneriaid o ran darparu pwrpasau a dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parc. Dylai'r Cynllun Rheoli gael ei berchenogi gan unrhyw un sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol.

PWY DDYLAI GYFRANNU?

- 3.5. Bydd y rhai a ddylai gyfrannu at baratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn amrywio, gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol ac ar bwyslais y Cynllun. Mae rhanddeiliaid allweddol, ar wahân i Awdurdod y Parc a chymunedau lleol, yn cynnwys y rhai a restrir ym Blwch 3.1. Yn ogystal, dylid gwneud pob ymdrech i ystyried barn ymwelwyr â'r Parciau ac i'w cynnwys yn y broses o baratoi'r Cynllun ar bob cyfle posibl.

Rhanddeiliaid Allweddol

Blwch 3.1

Adrannau ac Asiantaethau
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cadw
Coed Cymru
Holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a'r Adran dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau
Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Cyngor Chwaraeon Cymru
Awdurdod Datblygu Cymru
Bwrdd Croeso Cymru
Partneriaeth Twristiaeth De Orllewin Cymru
Twristiaeth Gogledd Cymru
Twristiaeth Rhanbarth y Brifddinas
Twristiaeth Canolbarth Cymru

Cymdeithasau

Un Llais Cymru
Cymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyrff Anllywodraethol

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Cyngor y Parciau Cenedlaethol
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Undeb Amaethwyr Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
Cymdeithas y Cerddwyr
Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Cymdeithas y Pridd
Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyswllt Amgylchedd Cymru
Yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt
Coed Cadw

Llywodraeth Leol (ar wahân i APC)

Canolfannau cofnodion biolegol
Cynghorau Cymuned
Adrannau datblygu economaidd awdurdodau lleol
Adrannau tai awdurdodau lleol; swyddogion hawliau tramwy awdurdodau lleol; awdurdodau priffyrdd lleol
Fforymau bioamrywiaeth lleol

Cymunedau lleol, grwpiau budd a chwmnïau masnachol lleol

Bydd y rhain yn dibynnu ar y Parc Cenedlaethol unigol – medrant fod yn niferus gan gynnwys fforymau mynediad, grwpiau twristiaeth lleol, grwpiau defnyddwyr, Siambrau Masnach, Cynghorau Cymuned, Cymdeithasau'r Parciau a Ffrindiau'r Parc, grwpiau cymunedol, grwpiau cymorth i ffermwyr, a chyfleustodau cyhoeddus.

Gwasanaethau a sefydliadau cynghori

Cyswllt Ffermio; ELWa; GLASU; GwirFlas; a Grwpiau Bwyd

Y GOFYNION STATUDOL AR GYFER PARATOI CYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL

3.6. Mae'r gofynion statudol ar gyfer paratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi eu nodi ym Mlwch 3.2. Dyma'r gofynion lleiaf.

Blwch 3.2

Y gofynion lleiaf ar gyfer paratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

O dan Adran 66 Deddf yr Amgylchedd (1995), rhaid i bob Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi a chyhoeddi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, gan nodi ei bolisiau ar gyfer:

- ☐ rheoli'r Parc Cenedlaethol
- ☐ cyflawni swyddogaethau Awdurdod y Parc yng nghyswllt y Parc Cenedlaethol

Rhaid i bob Awdurdod y Parc newydd gynhyrchu Cynllun Rheoli o fewn tair blynedd i'w sefydlu, a rhaid adolygu pob Cynllun pob pum mlynedd.

Wrth baratoi'r Cynllun Rheoli, rhaid i Awdurdodau'r Parciau ymgynghori gyda ac ystyried barn a sylwadau:

- ☐ pob prif gyngor sy'n gyfangwbl neu'n rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol
- ☐ Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Rhaid i Awdurdodau'r Parciau hefyd sefydlu trefniadau i hysbysu ac ymgynghori gyda Chynghorau Cymuned o fewn y Parc Cenedlaethol yng nghyswllt eu gwaith.

Rhaid anfon copi o unrhyw Gynllun a'i ddeunyddiau cysylltiedig at Lywodraeth y Cynulliad.

YMGYSYLLTU YSTYRLON A RHEOLAETH EFFEITHIOL

3.7 O dan y ddeddfwriaeth rhaid i Awdurdodau'r Parciau, fel prif awduron Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, ymgynghori gyda a hysbysu eraill. Ond mae natur y Cynllun Rheoli, a'r gwaith y mae'n ceisio ei gyfarwyddo, yn golygu bod angen llawer mwy nag ymgynghori syml i baratoi a darparu'r Cynllun yn iawn. Mae angen i randdeiliaid ddylanwadu ar a rhannu yn y penderfyniadau, o fewn paramedrau clir pwrpasau a dyletswyddau'r Parc Cenedlaethol – 'Deialog Gaeëdig' (Blwch 3.3).

3.8 Yn enwedig, rhaid i hyn gynnwys ymgysylltiad ag adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth a chyda'r awdurdodau lleol o fewn y Parc, gan fod eu polisiau a'u gweithredoedd yn cael dylanwad mor gryf ar ddyfodol y Parciau.

3.9 Mae hefyd yn hanfodol ymgysylltu â chymunedau'r Parciau Cenedlaethol – deall eu hanghenion cymdeithasol ac economaidd a pha nodweddion arbennig o'r Parciau a goledir ganddynt. Mae'r rhain yn cael eu diffinio'n rhannol a hefyd yn cael eu cynnal yn rhannol ganddynt.

3.10 Os yw datblygu cynaliadwy i'w gyflawni, mae'n hanfodol nad yw'r drafodaeth sy'n rhan o broses y Cynllun Rheoli yn cael ei gweld fel cyfaddawd rhwng y gwahanol fuddiannau ond, yn hytrach, fel adnabyddiaeth a dealltwriaeth o amcanion cyffredin. I wneud hyn, rhaid rhannu syniadau er mwyn gallu cytuno ar ffordd ymlaen.

3.11 Mater i Awdurdodau unigol y Parciau fydd penderfynu pa raglen o ymgysylltiad sydd orau a phwy i'w cynnwys ym mhob cam. Ond yr agweddau allweddol ar y Cynllun y bydd angen i bob un ohonynt eu datblygu drwy gyfrwng deialog ag eraill yw:

- adnabod beth yw'r materion allweddol
- cytuno ar yr opsiwn / opsiynau sydd orau ac ar weledigaeth gytun
- datblygu amcanion y Cynllun
- datblygu polisiau'r Cynllun
- datblygu'r Cynllun Gweithredu (gweler Blwch 3.4 isod).


Blwch 3.3: Mathau o ymgysylltiad

YMGYSYLLTIAD	NODWEDDION	YMATEBION
Deialog agored	Rhanddeiliaid yn rhannu yn y penderfyniadau	Anghenion / dyheadau ↑ Opsionau ↓ Ymateb
Deialog gaeedig	Rhanddeiliaid yn dylanwadu ar y penderfyniadau	
Ymgynghori	Rhanddeiliaid yn cael llai o ddylanwad	
Casglu gwybodaeth	Rhanddeiliaid yn darparu gwybodaeth i oleuo penderfyniadau – dim dylanwad	
Rhoi gwybodaeth	Rhanddeiliaid yn cael cyfle i ymateb	

Harris, Richard, ed. Why dialogue is different pp24 – 26. In Stakeholder Dialogue Language. Environment Council, London. seiliedig ar Armstein's Ladder of participation (1969)

PARATOI CYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL

- 3.12 Mae nifer o wahanol gamau yn y broses o baratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Blwch 3.4). Bydd pob Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gyda'i bartneriaid, yn datblygu'r ffordd orau o baratoi ei Gynllun Rheoli, er y bydd rhannu arferion rhwng Awdurdodau'r Parciau yn bwysig.
- 3.13 Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylai'r broses o baratoi'r Cynllun Rheoli a'i Asesiad SEA gyd-ddigwydd â pharatoi Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol a'i Werthusiad Cynaliadwydd / Asesiad SEA cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod y ddau gynllun a'u prosesau yn integredig.
- 3.14 Bydd angen Grŵp Llywio ar lefel uchel ar y ddwy broses, er mwyn cydlynu'r gweithgareddau. I wneud y mwyaf o'r cyfle i integreiddio'r Cynllun Rheoli a'r Cynllun Datblygu, byddai'n fantais fawr pe bai'r un Grŵp Llywio yn tywys y ddwy broses.
- 3.15 Mae'r ffaith fod angen Grŵp Llywio yn cydnabod bod gan y prosesau hyn, yn enwedig os ydynt yn adeiladu ar gyswllt presennol a chyson gyda phartneriaid, y potensial i fod yn eithaf gwasgaredig. Felly, mae'n bwysig cael grŵp craidd o swyddogion ac aelodau'r Parc a'u prif bartneriaid, i lywio'r broses; i sicrhau bod y gwahanol agweddau ar ymgysylltiad yn cael eu hintegreiddio ac i wthio'r prosesau cyfochrog ymlaen o un cam clir i'r llall.



Mae'r camau hyn yn ymgorffori anghenion yr Asesiad SEA (Blwch 2.1 ac Atodiad 1)

1) Sefydlu dealltwriaeth o gyflwr y Parc

- 3.16 Ar ddechrau'r broses o reoli cynllunio, mae'n bwysig dechrau adnabod y materion allweddol

sy'n effeithio (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar allu'r Parc i gyflawni ei bwrpasau a'i ddyletswydd Adran 62(1). Mae'r Parc yn debygol o gael gwybod am y rhain gan randdeiliaid a thrwy adolygu'r data cychwynnol. Dyma hefyd yw'r cam cyntaf hanfodol ar gyfer Asesiad SEA y Cynllun Rheoli.

- 3.17 Mae gan bob Awdurdod y Parc ei gronfa ddata helaeth ei hun. O ganlyniad, ni ddylai casglu data cychwynnol i gefnogi'r Cynllun Rheoli a'i Asesiad SEA (Atodiad 1) fod yn rhy feichus. Ar hyn o bryd, gall fod yn anodd gwahanu data ar gyfer ardaloedd o fewn a'r tu allan i'r Parc gan fod gwybodaeth ofodol yn aml yn cael ei chasglu ar gyfer gwahanol ardaloedd gweinyddol. Gall hyn fod yn broblem wrth geisio dod i gasgliadau ynghylch cyflwr y mannau hyn o fewn y Parc. Er hynny, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bydd yn bwysig casglu data sy'n union berthnasol i'r Parc ac i ddosbarthiad gofodol materion o fewn y Parc, a chydabod y bydd gan rai materion ffocws daearyddol arbennig o fewn y Parc.
- 3.18 Mae'r dystiolaeth a gesglir i gefnogi'r Cynllun Rheoli a'i Asesiad SEA yn gyfrwng i gadarnhau unrhyw bwysau arbennig ac i fesur eu maint.
- 3.19 Wrth i'r Cynllun Rheoli a'i Asesiad SEA ddatblygu, bydd yn hynod bwysig datblygu cyfres gyffredin o ddangosyddion, wedi eu cysylltu i'r data amgylcheddol cychwynnol, er mwyn monitro tueddiadau'r materion allweddol ac i fesur amcanion y Cynllun (para 4.17) ac amcanion yr Asesiad SEA (Atodiad 1(19)). Y wybodaeth yn sgîl mesur y dangosyddion hyn dros amser fydd yn ffurfio craidd yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc. Felly, dylid anelu at ddatblygu cysylltiad di-dor, drwy ddangosyddion clir, rhwng yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc, amcanion y Cynllun Rheoli, amcanion yr Asesiad SEA ac, o bosibl, yr agweddau ar yr adroddiad monitro blynyddol a gynhyrchir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol y Parc.
- 3.20 Bydd llawer o'r data perthnasol a ddefnyddir i fonitro'r dangosyddion allweddol yn cael ei ddal gan sefydliadau partner. O dan y dyletswydd Adran 62(2), dylid sefydlu dealltwriaeth glir ymhlith partneriaid o'r ffaith bod angen i ardal y Parc gasglu, dadansoddi a diweddarau data sy'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol.

2) Ymgysylltu â rhanddeiliaid a grymuso cymunedau lleol

- 3.21 Mae'r broses o ymgysylltu gyda gwahanol randdeiliaid er mwyn paratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn debygol o amrywio:
- Ar gyfer adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth, cyrff anllywodraethol ac awdurdodau lleol, bydd y partneriaethau mewn nifer o achosion eisoes yn eu lle a bydd yn bosibl eu cynnwys yn y broses o baratoi'r Cynllun drwy fireinio ychydig ar y berthynas sydd eisoes yn bodoli. Bydd hefyd yn bosibl economeiddio wrth gydlyn trefniadau cyswllt rhwng gwahanol gynlluniau sy'n effeithio ar y Parc Cenedlaethol, a'u hasesiadau amgylcheddol strategol cysylltiedig (Atodiad 1(46)).
 - Ar gyfer cymunedau'r Parciau Cenedlaethol, rhaid i'r prosesau ymgysylltu'n glir â'r bobl a bod o fantais amlwg iddynt, tra'n cydnabod bod cymunedau'r Parc yn aml yn anodd eu cyrraedd. Rhaid iddynt hefyd ofalu i beidio ag ailadrodd mathau eraill o gyswllt cymunedol. Yn y dyfodol, bydd defnyddio'r we efallai'n caniatáu i gymunedau mwy pellennig gymryd rhan yn y broses o baratoi'r Cynllun, gyda'i wahanol gamau esblygol yn ymddangos ar wefan a fyddai'n cael ei diweddarau'n gyson.
 - Ar gyfer ymwelwyr i'r Parciau Cenedlaethol, efallai y bydd y dulliau o ymgysylltu yn wahanol eto, ac o bosibl yn cynnwys arolygon neu grwpiau ffocws a / neu ddefnyddio'r we.
- 3.22 Wrth fynd ati i ymgysylltu â phartneriaid ac i rymuso cymunedau lleol, mae pedwar peth sy'n arbennig o bwysig i'w cofio:
- Dylai'r rhaglen ymgysylltu fod yn agored a didwyll a chael ei chynllunio'n ofalus o'r dechrau. Dylai'r rhaglen gael ei chysylltu'n agos i'r gwahanol gamau yn natblygiad y Cynllun, ac i gamau ei Asesiad SEA, a bydd y gwahanol randdeiliaid yn cyfrannu i raddau mwy neu lai yn y gwahanol gamau. Yn eu tro, dylai'r camau hyn gysylltu'n uniongyrchol i gynhyrchiad y gwahanol rannau o'r Cynllun fel bo'r Cynllun yn esblygu'n glir o'r broses o ymgysylltu.

■ Pa bynnag ddulliau o ymgysylltu a ddefnyddir, mae'n eithriadol bwysig bod y broses gyfan yn integreiddio'r gwahanol safbwyntiau hyn. Efallai na fydd hyn yn golygu cyfarfodydd mawr o anghenraid, ond yn hytrach trafodaeth agored am faterion neilltuol tra'n trosglwyddo'r pryderon hyn i grwpiau eraill er mwyn dod o hyd i ateb cyffredin.

■ Mae'r uchod yn rhoi pwyslais trwm ar hwyluso da drwy gydol y broses. Mae angen i'r hwyluso hwn fod yn ddiduedd. Efallai y byddai'n syniad da defnyddio hwylusydd annibynnol wrth baratoi'r Cynllun Rheoli. Ar yr un pryd, rhaid paratoi crynodebau clir wrth i'r Cynllun ddatblygu fel bod cyfraniadau rhanddeiliad yn adeiladu'n rhesymegol ar y rhai blaenorol.

■ Cyn belled ag y bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol, bydd yn ddoeth cyfuno'r broses ymgynghori ar gyfer y Cynllun Rheoli â'r broses ar gyfer ei Asesiad SEA. Y ddau gam hollbwysig fydd: (a) ymgynghori ar weledigaeth ac amcanion y Cynllun Rheoli, ac ar Adroddiad Cwmpasu Asesiad SEA y Cynllun Rheoli; a (b) ymgynghori'n ffurfiol ar y Cynllun Rheoli Drafft ac ar Adroddiad yr Asesiad SEA ar gyfer y Cynllun Rheoli (Atodiad 1 (37)).

3) Edrych ar opsiynau ar gyfer y Cynllun Rheoli (creu senarios)

3.23 Gyda'r Polisi Amaeth Cyffredin yn cael ei ddiwygio'n barhaus, ynghyd â goblygiadau dwfn y newid yn yr hinsawdd, a'r ffordd newydd o fyw mewn cymunedau gwledig, dylid ystyried gwahanol senarios neu opsiynau ar gyfer dyfodol y Parciau. Mae angen inni afael o'r dechrau un yn y sialensau a'r cyfleoedd sydd erbyn hyn yn wynebu'r Parciau.

3.24 Dylai adolygiad o'r gwahanol senarios, a dod i gytundeb ynghylch pa ffordd ymlaen sydd orau, oleuo gweledigaeth y Cynllun. Wedyn, mae'n debyg y bydd y gwahanol opsiynau yn cael eu trafod wrth i'r Cynllun ddatblygu ac wrth drafod amcanion, polisiâu a gweithredu. Mae hyn yn gwbl briodol ac yn rhan angenrheidiol o broses gynhwysol.

3.25 Bydd angen i Awdurdodau'r Parciau arwain y rhan fwyaf o'r drafodaeth am greu senarios a gwahanol opsiynau, tra bydd y partneriaid yn cyfrannu'n rhesymegol at y meysydd sydd fwyaf o ddiddordeb iddynt.

4) Cytuno ar weledigaeth ac amcanion rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol

3.26 Dylai gweledigaeth (para 4.16) ac amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, sy'n nodi uchelgais y Parc, ddeillio o brosesau cytun ac agored. Er hynny, mae'n hanfodol bod y prosesau hyn yn canolbwyntio ar ysgogi uchelgais yn hytrach na bodloni ar gyfaddawd nad yw'n plesio unrhyw un yn y bôn.

5) Cytuno ar bolisiâu'r Cynllun

3.27 Dylai polisiâu a Chynllun Gweithredu'r Cynllun Rheoli ddarparu'r weledigaeth a'r amcanion (para 4.22 - 4.25).

3.28 Eto, mae'n bwysig bod y polisiâu yn cael eu datblygu mewn partneriaeth, gan y bydd eu gweithrediad yn dibynnu'n drwm ar gyfraniad pob un o'r rhanddeiliaid.

6) Cytuno ar a chydlynu'r gweithredu a fydd yn deillio o'r Cynllun

3.29 Yn yr un modd, dylid cael cytundeb ynghylch y gweithredu. Yn wir, mae hyn yn hanfodol bwysig i ddarparu'r Cynllun, a dylid dyrannu pob cam gweithredu yn glir i bartner arweiniol.

7) Ymgynghori ar y Cynllun drafft

3.30 Mae ymgynghori ar y Cynllun drafft yn elfen reolaidd o unrhyw reidrwydd i baratoi Cynlluniau statudol ac yn ofyniad o'r Asesiad SEA, sy'n cynnwys cyfnod ymgynghori safonol pryd y rhoddir cyfle i ymateb yn ysgrifenedig i'r Cynllun drafft. Mae'n debyg mai'r agweddau pwysicaf yn y cam hwn yw

■ cadw cofnod cyflawn a chlir o'r holl sylwadau a ddaeth i law;

■ rhoi amser i sicrhau nad yw pobl yn cael eu rhuthro, ond nid fel eu bod yn colli diddordeb ychwaith;

■ hysbysu'r ymgynghoreion sut y bydd eu barn yn cael ei hymgorffori yn y Cynllun terfynol,

neu, os na fydd, pam ddim. Gellid gwneud hyn ar ffurf adroddiad byr ar yr ymgynghoriad.

- 3.31 Dyma pryd y bydd gan y Grŵp Llywio ar gyfer y Cynllun Rheoli rôl arbennig o bwysig i'w chwarae, o ran penderfynu i ba raddau y mae angen newid y Cynllun i gwrdd â'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad.
- 3.32 Er hynny, os yw'r broses o baratoi'r Cynllun wedi bod yn un gynhwysol, ni ddylai'r cyfnod hwn o ymgynghori ffurfiol godi unrhyw beth annisgwyl. Yn wir, dylid ei weld fel cyfle cadarnhaol iawn i wella'r Cynllun yn fwy fyth. Dyma'n sicr fu profiad y rhai sydd wedi mabwysiadu dull cynhwysol o ddatblygu'r Cynllun.

8) Cydlynw a rhannu'r gwaith o fonitro'r Cynllun

- 3.33 Dim ond un cam yn y dasg barhaus o reoli'r Parc fydd cwblhau'r Cynllun. Rhaid i'r pwyslais symud yn ddiymdroi tuag at ddarparu'r Cynllun Gweithredu a monitro canlyniadau'r Cynllun ar y cyd ag eraill (Pennod 5).

9) Adolygu'r Cynllun

- 3.34 Mae'r adolygiad o'r Cynllun yn cwblhau'r cylch.

Y DULL CYFFREDINOL O WEITHREDU CYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL

- 3.35 Mae Parciau Cenedlaethol yn ardaloedd arbennig. Maent yn ardaloedd lle mae angen hyrwyddo dulliau arbennig o weithredu, ynghyd â pholisïau a gweithredoedd arbennig.
- 3.36 Gall amgylchiadau godi mewn Parciau Cenedlaethol nad ydynt yn digwydd mewn ardaloedd eraill, lle bydd angen atebion anghyffredin. Disgwylir i Barciau hefyd gynnig amgylchedd lle mae polisïau, yn enwedig rhai datblygu cynaliadwy, yn cael eu harloesi a'u profi. Agwedd bwysig ar y rôl flaenllaw hon yw sicrhau bod polisïau a gweithredu llwyddiannus yn cael eu trosglwyddo i gefn gwlad ehangach.
- 3.37 Felly, disgwylir i'r gwaith o reoli'r Parciau Cenedlaethol dorri tir newydd. Mae gan brosiectau blaengar rôl glir i'w chwarae. Yn aml iawn, bydd angen ymchwil ddyfeisgar i helpu i gasglu tystiolaeth well ac mae gan Awdurdodau'r Parciau gyfle i ddangos y gorau o weithio mewn partneriaeth.



4. ELFENNAU'R CYNLLUN

- 4.1 Ar ôl edrych ar y broses o ddatblygu'r Cynllun, mae'r Bennod hon yn nodi beth yw prif elfennau'r Cynllun, ac yn cynnig fframwaith y gall pob Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ei ddefnyddio i ddarganfod ffordd ymlaen iddo'i hun.

ELFENNAU ALLWEDDOL CYNLLUNIAU RHEOLI'R PARCIAU CENEDLAETHOL

- 4.2 Dylai fod gan Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yr elfennau allweddol canlynol:
- disgrifiad o rôl Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac o bwrpasau a dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parc Cenedlaethol sy'n rhoi'r prif ffocws i'r Cynllun (Pennod 1);
 - adnabod nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol;
 - disgrifiad o'r materion sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol a'u tueddiadau cysylltiedig o ran eu perthnasedd i bwrpasau a nodweddion arbennig y Parc;
 - adnabod beth yw uchelgais y Parc Cenedlaethol – ei weledigaeth a'i amcanion;
 - nodi sut y bwriedir darparu'r uchelgais hwnnw – drwy bolisiau a Chynllun Gweithredu.
- 4.3 Mae'r gwahaniaeth rhwng Uchelgais a Darparu yn un pwysig. Yn y gorffennol, yr oedd dryswch rhwng rôl yr amcanion a'r polisiau mewn Cynlluniau Rheoli. Yn fwy diweddar, mae Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol yn cael eu harwain fwy gan amcanion. Mewn geiriau eraill, maen nhw'n cyflwyno eu huchelgais ar gyfer y Parc Cenedlaethol (drwy eu gweledigaeth a'u hamcanion) ac yna'n nodi sut y bydd yr amcanion hyn yn cael eu darparu drwy ystod o bolisiau a gweithredoedd.
- 4.4 Dyma'r dull a gefnogir yn y canllawiau hyn, gyda gwahaniaeth clir iawn rhwng Uchelgais y Parc Cenedlaethol (lle'r ydych eisiau cyrraedd – y weledigaeth a'r amcanion) a sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd yno (drwy gymhwyso a gweithredu polisiau yn gyson).

- 4.5 Dylai'r weledigaeth fod yn un barhaus a chynrychioli pwynt yr anelir at ei gyrraedd yn y man, sef pwynt na ddylai newid gydag amser oni bai fod polisi cenedlaethol yn awgrymu bod angen troi at gyfeiriad arall. Mae'r amcanion (para 4.16 - 4.17), a ddylai fod yn fesuradwy, yn cynrychioli'r camau y bydd y Parc yn eu dilyn i gyflawni'r weledigaeth honno. Ar y llaw arall, bydd polisiau yn ymateb yn well (fel y dylent) i newid, a bydd angen iddynt ymateb i faterion wrth iddynt godi ac i ganlyniadau'r monitro. Mae angen iddynt sicrhau bod y camau a gymerwyd yn rhai priodol o hyd i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion, efallai yn erbyn cefndir o newid polisi yn allanol.

NODWEDDION ARBENNIG

- 4.6 Dylai'r Cynllun dynnu sylw at bwysigrwydd cenedlaethol y Parc.
- 4.7 Dylai hefyd ddisgrifio nodweddion arbennig y Parc. Er y bydd y Parc Cenedlaethol yn gyfarwydd iawn i swyddogion ac aelodau Awdurdod y Parc, efallai na fydd yn gyfarwydd i bawb y disgwylir iddynt, ac efallai a ddylai, ddarllen y Cynllun Rheoli. I lawer, ni fydd y weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Parc yn gwneud llawer o synnwyr os nad ydynt yn seiliedig ar rywfaint o ddealltwriaeth sylfaenol o naws y lle.
- 4.8 Dylid cyfleu'r argraff yn y Cynllun Rheoli o'r hyn sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig ac unigryw – beth yw ei nodweddion arbennig y gall pawb sy'n darllen y Cynllun uniaethu â nhw – a sut y mae'r tirlun, bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn amrywio ar draws y Parc Cenedlaethol i greu ardaloedd arbennig.
- 4.9 Dylai'r Cynllun ddisgrifio'r cyfleoedd a gynigir i fwynhau a deall y nodweddion arbennig hyn.
- 4.10 Dylai hefyd ddarparu dealltwriaeth sylfaenol o'r cymunedau a'r economi leol a'u cydberthynas â'r broses o reoli'r Parc Cenedlaethol, ac adlewyrchu'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- 4.11 Gall gwybodaeth gan LANDMAP ac o gynlluniau gweithredu bioamrywiaeth helpu i greu darlun o'r Parc Cenedlaethol, felly hefyd unrhyw astudiaethau hamdden a phroffiliau twristiaeth. Medrant hefyd helpu i ddiffinio'r gwahanol ardaloedd daearyddol yn y Parc sydd â'u hunaniaeth unigryw eu hunain.

- 4.12 Dylai cymeriad economaidd-gymdeithasol y Parc Cenedlaethol gael ei oleuo gan ystadegau sy'n benodol i ardal y Parc. Mae'r rhai a gynhyrchir o gyfuniad o'r ardaloedd awdurdod lleol sy'n creu'r Parc yn debygol o gamliwio cymeriad y Parc yn sylweddol, oherwydd y gwahaniaethau poblogaeth pur amlwg o fewn a'r tu allan i'r Parciau – gyda ffiniau'r Parc yn aml yn eithrio trefi cyffiniol.

MATERION SY'N WYNEBU'R PARCIAU CENEDLAETHOL

- 4.13 Fel a nodir yn y rhagarweiniad i'r canllawiau hyn, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen bolisi drosfwaol ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Bydd y Cynllun Rheoli'n cael ei gefnogi gan y Cynllun Datblygu Lleol a bydd yn bwysig sicrhau bod yr ymatebion i'r materion sy'n codi wrth baratoi'r ddwy ddogfen yn cael eu hintegreiddio'n llawn.

- 4.14 Bydd y materion sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol (y bygythiadau a'r cyfleoedd) yn greiddiol i greu'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Parc yn ei Gynllun Rheoli. Wedi'r cwbl, dyma'r materion a ddylai dywys datblygiad y polisiau. Mae'r pethau hyn yn debygol o ymwneud â thueddiadau presennol ac â'r grymoedd sy'n achosi newid a dylid eu nodi o ran eu cysylltiad i bwrpasau'r Parc a lles ei gymunedau. Maent yn debygol o fod yn chwe phrif fath:

- Materion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n glir mai ychydig iawn o gynlluniau rheoli sydd wedi ymgysylltu'n llawn â goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau tebygol ar dirlun a bioamrywiaeth ac ar adnoddau naturiol yr aer, pridd a'r dŵr yn y Parciau Cenedlaethol, na'i oblygiadau ychwaith i batrymau hamdden. Bratiog o hyd yw'r wybodaeth ynghylch darogan effeithiau llawn y newid hwn a pha mor sydyn y mae'n digwydd, ond ni allwn fforddio ei anwybyddu fel dylanwad pwysig ar y Cynllun Rheoli.
- Materion yn ymwneud â darparu polisiau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o fewn y Parc Cenedlaethol a'r potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng y meysydd polisi hyn os na chânt eu tywys a'u 'hidlo' drwy'r Cynllun Rheoli. Mae archwilio'r cyd-destun polisi yn rhan bwysig hefyd o'r Adroddiad

Cwmpasu ar gyfer Asesiad SEA y Cynllun Rheoli (Atodiad 1(15 -17)). Un o'r pethau a fydd yn greiddiol i'r rhain fydd diwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin a gweithrediad y Cyfarwyddbau Ewropeaidd, gan gynnwys y Gyfarwydddeb Cynefinoedd (Atodiad 1 (16)) a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Ond mae gan bron bob agwedd ar bolisi y potensial i effeithio ar y Parciau, o gynigion adnoddau dŵr yn y dyfodol a pholisïau ynni adnewyddadwy ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, i bolisïau trafnidiaeth a datblygu economaidd na wnânt o anghenraid ystyried yn llawn y pwrpasau y dynodwyd y Parciau o'u herwydd yn y lle cyntaf.

- Materion sy'n codi yn dilyn adolygu'r dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Rheoli a'r Asesiad SEA (paragraffau 3.16 - 3.20). Bydd y materion hyn yn cynnwys tueddiadau yn y materion sydd eisoes wedi eu nodi mewn Cynlluniau Rheoli blaenorol, a thueddiadau unrhyw faterion sy'n codi o'r newydd.
- Materion yn codi yn dilyn monitro Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r dangosyddion allweddol a nodir yn yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc (para 3.19).
- Materion yn codi o gynlluniau a strategaethau perthnasol eraill, ac a ddylai gael eu codi gan bartneriaid yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun. Gallai'r cynlluniau a'r strategaethau eraill hyn gynnwys Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, Asesiadau o Gymeriad y Tirlun a Strategaethau Tirlun. Hefyd Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, Strategaethau Twristiaeth a chynlluniau awdurdod lleol ar gyfer tai fforddiadwy a datblygu economaidd, i enwi ond rhai.
- Materion yn codi yn dilyn cyfranogiad rhanddeiliaid a chymunedau ac ymwelwyr y Parc Cenedlaethol wrth baratoi'r Cynllun. Mewn rhai achosion, gall y rhain osod yr agenda ar gyfer monitro'r Cynllun yn y dyfodol drwy'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc, ond gallai gwybodaeth anecdotaidd, yn enwedig gan gymunedau lleol, ddarparu cyd-destun pwysig a fyddai fel arall yn cael ei golli efallai.

YR UCHELGAIS AR GYFER Y PARC CENEDLAETHOL (GWELEDIGAETH AC AMCANION)

4.15 Fel y soniwyd eisoes, dylai Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wahaniaethu'n glir rhwng yr Uchelgeisiau ar gyfer y Parc Cenedlaethol (y weledigaeth a'r amcanion) a sut y bwriedir eu darparu (y polisiau a'r Cynllun Gweithredu).

4.16 Dylai'r weledigaeth ddarparu datganiad am sut ddylai'r Parc Cenedlaethol edrych fel mewn 20 – 30 mlynedd. Dylai fod yn glir, yn llawn dyhead, yn uchelgais ond yn realistig. Dylai fod yn benodol i'r Parc arbennig hwnnw a chael ei adnabod yn glir felly. Dylai ddatblygu cysylltiadau rhwng pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a'i ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mewn geiriau eraill, dylai egwyddorion datblygu cynaliadwy fod wrth wraidd ei neges.

Enghraifft o weledigaeth ar gyfer Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

Blwch 4.1

Gweledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd – Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd (Drafft Ymgynghorol) 2004

Rydym eisiau gweld rhywle lle: Mae pawb sy'n byw ac yn gweithio yn, ac yn ymweld â Pharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd yn ymfalchïo ynddo. Mae pobl yn deall pwrpasau Parciau Cenedlaethol, ac yn cyfrannu'n weithredol atynt. Mae nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd yn parhau i'w wneud yn ardal neilltuol, ac yn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn dirlun gorau'r wlad (Lloegr). Mae'r rhai sy'n ei reoli, neu sy'n defnyddio ei adnoddau, yn ystyried yr effaith y mae eu gweithgareddau yn ei gael ar bobl a lleoedd, oddi mewn a'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Rydym yn parhau i brofi syniadau a chynlluniau datblygu cynaliadwy arloesol.

Rhoddir anogaeth i gadw bridiau da byw traddodiadol, fel defaid Herdwick. Mae ansawdd y dŵr yn ein llynnoedd a'n hafonydd yn parhau i wella. Mae ein gweunydd yn agored a heb eu difetha gan adeiladau modern. Rydym yn atal ac yn dileu newidiadau defnydd tir andwyol sy'n niweidio nodweddion arbennig yr ardal. Rydym yn dathlu'r berthynas rhwng pobl a'r tir, ac yn cefnogi systemau ffermio traddodiadol a rheolaeth ein comins helaeth. Rydym yn coleddu treftadaeth gyfoethog ein gorffennol, gan gynnwys ein cylchoedd cerrig, caerau a safleoedd archeolegol eraill.

Rydym eisiau gweld rhywle lle: Mae gan yr ystod ehangaf o bobl sy'n chwilio am nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys rhai sy'n aml yn cael eu heithrio am resymau corfforol, cymdeithasol neu ariannol, yn cael mynediad iddo. Pery'r cyfleoedd ar gyfer lluo o weithgareddau hamdden a chwaraeon awyr agored. Mae'n bosibl dod o hyd i heddwch a thangnefedd, rhywle i ymlacio ac i ysgafnu, heb deithio'n bell na dringo'n uchel.

Rydym eisiau gweld rhywle lle: • Mae trigolion y Parc Cenedlaethol yn mwynhau ansawdd bywyd da ac yn cael mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau sy'n briodol i'r ardal. Mae gan drefi a phentrefi rôl glir a phwrpasol, ac mae'r prif aneddiadau a'r canolfannau gwasanaeth yn cael eu cefnogi a'u cryfhau. Mae cartrefi fforddiadwy ar gael i bobl leol. Defnyddir mwy o ddeunyddiau a gorffeniadau lleol, fel llechi a gwyngalch. Datblygir sgiliau lleol, gan gynnwys trwsio llwybrau troed yr ucheldir a chodi waliau cerrig sychion. Gwerthir mwy o gynnyrch lleol, gan gynnwys da byw wedi eu magu yn ardal Cumbria, ac mae'r diwylliant a thraddodiadau lleol yn cael eu cefnogi'n eang, yn enwedig drwy sioeau dyffryn.

Rydym eisiau gweld rhywle lle: • Ceir amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw ffyniant y diwydiant amaeth, a chael sector twristiaeth cynaliadwy a bywiog, a'r cysylltiadau rhyngddynt. Nid ydym yn orddibynnol ar un diwydiant. Mae datblygu economaidd yn gydnaws â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol, ac yn cynnal a gwella nodweddion arbennig yr ardal yn y tymor hir, tra'n rhoi mantais economaidd iddi fel lle dymunol i fyw a gweithio.

Rydym eisiau gweld rhywle lle: Mae datblygiadau wedi eu dylunio a'u lleoli'n ofalus, er mwyn gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, yn cael eu hyrwyddo'n frwd. Mae cyfraniad helaeth yr aneddiadau at gymeriad y tirlun yn cael ei gydnabod. Mae arbed ynni a gwella perfformiad amgylcheddol yn cael ei annog gyda phob datblygiad. Gwneir ymdrechion i leihau faint o wastraff a gynhyrchir, a llygru'r dŵr, tir a'r aer, gan gynnwys llygredd sŵn a golau. Mae teithio'n gynaliadwy, a dulliau newydd o gyfathrebu sy'n lleihau'r angen i deithio, yn cael eu hannog. Mae gennym rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus gwell, mwy hygyrch a mwy dibynadwy, ac yn defnyddio mwy ar drafndiaeth y llynnoedd.

4.17 Dylai'r amcanion angori a chyfleu'r gwahanol agweddau ar y weledigaeth yn glir. Dylent nodi disgwyliadau clir. Yn y Cynlluniau Rheoli presennol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol, disgrifir yr amcanion hyn gan amlaf fel nodau neu amcanion.

4.18 Ar gyfer Cynlluniau Rheoli i'r dyfodol, argymhellir yn gryf eu bod yn gwahaniaethu'n glir rhwng:

■ y nodau sef datganiadau bwriad cyffredinol, er enghraifft, "Cynyddu dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol er mwyn annog ymrwymiad i bwrpasau'r Parc a gwarchod nodweddion arbennig y Parc."; ac

■ yr amcanion a ddylai, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, fod yn rhai CAMPUS (Blwch 4.), tra'n sicrhau bod ganddynt ffocws clir a'u bod yn heriol ond yn realistig, ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid.

Yr Egwyddor CAMPUS

Blwch 4.2

Dylai'r amcanion fod yn:

- ☐ Cyraeddadwy . clearly targeted and defined)
- ☐ Amserol (gellir eu cyflawni o fewn amser penodol)
- ☐ Mesuradwy (drwy ddefnyddio dangosyddion priodol)
- ☐ Penodol (h.y. wedi eu targedu a'u diffinio'n glir)
- ☐ Time-bound (achievable within a set timescale)
- ☐ Uchelgeisiol (ond yn realistig)
- ☐ Synhwyrol (i'r Parc Cenedlaethol)

Enghraifft o amcanion CAMPUS

Blwch 4.3

- ☐ Sicrhau bod yr holl Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a'r Safleoedd Bywyd Gwyllt o fewn y Parc Cenedlaethol mewn cyflwr ffafriol neu os yn anffafriol bod eu cyflwr yn adfer erbyn ...
- ☐ Sicrhau bod yr holl afonydd o fewn y Parc Cenedlaethol yn cwrdd ag amcanion ansawdd dŵr erbyn...
- ☐ Sicrhau bod 90% o'r tir comin o fewn y Parc Cenedlaethol o dan gynllun rheoli erbyn ...

4.19 Dylai'r Cynllun osgoi cael ei amharchu drwy fod â gormod o amcanion na ellir eu cyflawni.

4.20 Fel y soniwyd ym mhara 3.19, bydd yn bwysig iawn nodi cyfres glir o ddangosyddion i fesur yr amcanion hyn. Fodd bynnag, rhaid i ffocws yr amcanion fod ar adlewyrchu'r weledigaeth yn hytrach nag ar argaeledd data fel y gellir eu mesur. Os nad oes data ar gael i fesur cyflawniad yr amcanion, dylid rhoi pwyslais ar ddatblygu dangosyddion procsi (para 5.6).

4.21 Yn y Cynlluniau Rheoli presennol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol, mae'r amcanion fel arfer wedi eu grwpio o dan themâu penodol sydd gyda'i gilydd yn cyfleu'r weledigaeth, gyda'r polisïau i ddarparu'r amcanion hefyd wedi eu grwpio o fewn yr un themâu. Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r amcanion, bydd yn bwysig iawn sicrhau nad yw'r rhai o dan un thema yn gwrthdaro â'r rhai o dan thema arall. Mae hyn yn pwysleisio bod angen meddwl yn integredig wrth ddatblygu'r Cynllun – meddwl drwy oblygiadau tebygol cwrdd ag un amcan i'r rhagolygon ar gyfer cyflawni'r amcanion eraill. Bydd Asesiad SEA y Cynllun Rheoli hefyd yn sicrhau na fydd unrhyw wrthdaro rhwng y gwahanol amcanion (Atodiad 1(18)).

DARPARU'R UCHELGAIS (POLISÏAU A GWEITHREDOEDD)

4.22 Dylai'r polisïau a'r Cynllun Gweithredu nodi SUT y bydd y weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn cael eu darparu. Dylai'r polisïau fod yn berthnasol dros oes gyfan y Cynllun (pum mlynedd) tra bydd y Cynllun Gweithredu ond yn berthnasol efallai am flwyddyn neu ddwy cyn y bydd angen ei ddiweddarau, gyda diwygiad llawnach yn dilyn yr adolygiad pum mlynedd o'r Cynllun Rheoli.

4.23 Mae'n gwbl hanfodol cynnwys polisïau yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, nid lleiaf am fod hyn yn un o'r gofynion penodol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995:

66. ...rhaid i bob awdurdod y Parc Cenedlaethol...baratoi a chyhoeddi cynllun...sy'n ffurfio ei bolisïau ar gyfer rheoli'r Parc perthnasol ac ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau yng nghyswllt y Parc hwnnw...

4.24 Drwy adlewyrchu'r pwyslais ar ddarparu, bydd y polisiau yn y Cynllun Rheoli yn debygol o fod o ddau fath:

- còd syml yn nodi'r paramedrau allweddol a ddylai dywys darpariaeth yr amcanion at y dyfodol, fel "I atal difrod pellach i safleoedd cadwraeth natur statudol" ; a

- polisiau cadarnhaol a rhagweithiol sy'n nodi sut y bydd yr amcanion yn cael eu darparu

"I ddatblygu cynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd allweddol sydd dan bwysau hamdden, a cheisio sicrhau manteision lluosog o ran harddwch naturiol, mwynhad, pobl leol a'r economi leol."

4.25 Y Cynllun Gweithredu: Dylai'r Cynllun Gweithredu flaenoriaethu gweithredu gydag amserlen a cherrig milltir clir a thargedau neu allbwn cytunedig (er mwyn mesur y gweithredu yn eu herbyn (para 5.4)), tra'n penodi sefydliad arweiniol, drwy gytundeb, i fod yn gyfrifol am bob gweithred.

4.26 Mae'r Cynllun Gweithredu a chynnwys y Cynllun Rheoli (fel a nodir ym mharagraffau 4.34 hyd at 4.45) yn debygol o gael cysylltiadau uniongyrchol i'r Cynllun Datblygu Lleol, a dylid adolygu'r cysylltiadau hyn wrth ddatblygu'r cynlluniau newydd. Mae gan y Llywodraeth bellach ganllawiau newydd ar ba bolisiau cynllunio sydd angen rhoi sylw iddynt mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (gweler y Llawlyfr Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006).

TRYWYDD ARCHWILIO

4.27. Dylid cael trywydd archwilio clir rhwng y materion; yr amcanion; a'r polisiau:

- dylid ymdrin â'r materion drwy gyfuniad o amcanion a pholisiau'r Cynllun;

- dylai'r amcanion gyda'i gilydd fod yn gallu cyfrannu'n helaeth at gyflawni'r weledigaeth;

- dylai'r polisiau a'r Cynllun Gweithredu fod yn gallu darparu'r amcanion yn glir.

4.28. Dylai fod ganddo hefyd gysylltiadau clir rhwng y Cynllun Gweithredu a'r rhannau o'r Asesiad SEA sy'n ymwneud â data cychwynnol, amcanion, targedau a monitro.

4.29 Integreiddio: Er budd datblygu cynaliadwy, mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu yn datblygu cysylltiadau clir rhwng y pwrpas cyntaf a'r ail bwrpas, a'r dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

RHESTR WIRIO O'R PYNCIAU

4.30 Y pynciau posibl y bydd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn ymdrin â hwynt yw:

Over-arching topics

4.31 Datblygu cynaliadwy: Mae angen i egwyddorion datblygu cynaliadwy dreiddio'n glir drwy bob agwedd ar y Cynllun (paragraffau 2.3 – 2.11).

4.32 Newid yn yr hinsawdd: Dyma un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu dyfodol y Parciau Cenedlaethol. Y pryder i Awdurdodau'r Parciau yw nid yn unig fod angen cadw i fyny â'r proffwydo ynghylch y newid yn yr hinsawdd, ond ystyried hefyd pa effaith y bydd yn ei gael ar y Parc. Gallai'r newidiadau fod yn niferus a chynnwys newidiadau posibl i gynefinoedd a llystyfiant lled-naturiol; colli ac ennill rhywogaethau; newid i gnydau amaethyddol, coedwigaeth a defnyddiau tir; newid yn y cylch dŵr naturiol; yn strwythur y pridd ac erydiad; lefelau'r môr yn codi; newidiadau mewn patrymau hamdden ac yn y blaen.

4.33 Yn eu tro, mae angen i'r Cynllun Rheoli ystyried sut y bydd y Parciau yn ymateb i'r newidiadau hyn, o ran lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd ac o ran annog ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy, sy'n arbed mwy o ynni ac yn defnyddio llai o adnoddau.

Y Pwrpas Cyntaf: Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol

4.34 Mae pynciau y bydd y Parciau yn eu hystyried gyda'i gilydd neu'n unigol o dan y pwrpas cyntaf yn cynnwys:

- **Cymeriad y tirlun** a'i nodweddion allweddol fel a nodir gan LANDMAP, sy'n cydnabod bod y Parciau Cenedlaethol wedi eu dynodi am eu Harddwch Naturiol.

- **Bywyd gwyllt / Bioamrywiaeth** (cynefinoedd a rhywogaethau) sydd hefyd yn seiliedig ar ddata LANDMAP ac ar ddata o Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a chenedlaethol, ac ar dargedau gan gynnwys rhai ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
 - **Daearamrywiaeth** sy'n seiliedig ar ddata a ddelir gan y Cyngor Cefn Gwlad a chan UKRIGS ar gyfer Safleoedd Daearegol / Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol.
 - **Coetiroedd** – rhai masnachol, lled-naturiol a mwynnderol – efallai'n seiliedig ar ddata o Strategaeth Coetiroedd i Gymru gan y Cynulliad Cenedlaethol.
 - Rheoli tir comin yn enwedig yng ngoleuni deddfwriaeth sydd ar y gorwel er mwyn sicrhau gwarchodaeth tymor hir i gomins ym mhob man, i oresgyn defnyddiau anghynaliadwy ac i ddarparu system decach a mwy effeithiol o gofrestru a rheoli tir comin.
 - Natur anghysbell a thangnefedd a'r ymdeimlad o heddwch a thawelwch, sy'n seiliedig ar ddata gan LANDMAP i adlewyrchu bod tangnefedd nid yn unig yn arwydd o lefelau sŵn ond hefyd o ddatblygiadau ymwithiol fel peilonau, mastiau a thyrbiniau gwynt. Ynghlwm wrth hyn, gwarchod a gwella tywyllwch awyr y nos.
 - Adnoddau naturiol yr aer, pridd a'r dŵr (gan gynnwys afonydd a dyfroedd croyw) ar sail data gan Asiantaeth yr Amgylchedd a gwaith gyda darparu'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr i ystyried erydiad y pridd; llygredd aer, pridd a dŵr; adnoddau dŵr a llifogydd arfordirol ac afonol. Hefyd yn cysylltu i reoli gwastraff.
 - Rheoli'r arfordir a'i gysylltiadau i Reolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.
 - Patrwm aneddiadau a'r dreftadaeth adeiledig, sy'n adlewyrchu strwythur ac esblygiad aneddiadau, eu gosodiad a'u harddulliau adeiladu lleol, ar sail data o Ddatganiadau Ardaloedd Cadwraeth.
 - Archeoleg a thirluniau hanesyddol yn fwy cyffredinol, ar sail data o'r Gofrestr o Dirluniau Hanesyddol, ac yn fwy penodol dosbarthiad yr Henebion Cofrestredig ac adeiladau rhestredig, meysydd brwydr a thirluniau o ddyluniad hanesyddol.
 - Hanes cymdeithasol / arferion a thraddodiadau fel a fynegir gan ddiwylliannau presennol a rhai'r gorffennol, ar sail data gan LANDMAP.
 - Cysylltiad â'r celfyddydau – y Parc Cenedlaethol mewn cerddoriaeth, celfyddyd a llenyddiaeth.
- 4.35 Mae'r cwestiynau y bydd angen dod o hyd i atebion iddynt wrth ddatblygu'r Cynllun Rheoli yng nghyswllt y pwrpas cyntaf yn cynnwys:
- Sut ddylai'r Cynllun Rheoli ymateb i'r newid yn yr hinsawdd (gweler uchod)?
 -  a nodweddion a rhinweddau arbennig sydd angen eu gwarchod beth bynnag yw'r gost i gadw harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol, a pha rai y gellir eu cynyddu o ran arwynebedd / nifer / ansawdd, a sut?
 - A ydyw newid yn briodol ac, os ydyw, ym mha gyfeiriad?
 - Beth yw'r potensial ar gyfer prif ffrydio rheoli tir yn gynaliadwy ym mhob agwedd ar arferion amaethyddol?
 - Beth yw'r potensial ar gyfer cyflawni ffermio a choedwigaeth aml-fudd yn wyneb diwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin a'r newid polisi yn genedlaethol? A oes gan goedwigaeth fasnachol rôl i'w chwarae o hyd yn y Parc Cenedlaethol – ym mhle ac ym mha ffurf?
 - A ddylai rheoli adnoddau dŵr a lleihau llygredd aer, pridd a dŵr ddod yn faterion mwy canolog yn y Cynllun Rheoli?

Yr Ail Bwrpas: Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig y Parciau Cenedlaethol

4.36 Mae'r pynciau y gellir eu hystyried gyda'i gilydd neu'n unigol o dan yr ail bwrpas yn cynnwys:

- **Codi ymwybyddiaeth** ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid, cymunedau lleol a Chymru'n ehangach, am y Parc Cenedlaethol, ei nodweddion arbennig, y cyfleoedd y mae'n eu cynnig, a'r bygythiadau sy'n ei wynebu, a pha mor fregus ydyw.
- **Dehongli ac addysg** drwy ganolbwyntio ar wella dealltwriaeth o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
- **Darparu hamdden** a'r cyfleoedd ar gyfer mwynhad tawel a gynigir gan y rhwydwaith hawliau tramwy a chefn gwlad agored, yn ogystal â chyfleoedd eraill i fwynhau chwaraeon a diddordebau hamdden.
- **Patrymau ymwelwyr a'u rheolaeth** gan gynnwys tueddiadau yn y defnydd a wneir o'r Parc gan ymwelwyr, a sut i'w rheoli.
- Tueddiadau, marchnadoedd, llety ac atyniadau **twristiaeth** ar sail data o arolygon a strategaethau twristiaeth rhanbarthol a mwy lleol, gan gynnwys rhai ar gyfer y Parc Cenedlaethol, a'r cyfleoedd i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy sy'n helpu i atgyfnerthu'r pwrpas cyntaf.
- **Cynhwysiant cymdeithasol** a'r cyfleoedd i fwynhau'r Parc Cenedlaethol sydd gan bobl llai abl ac wedi eu heithrio'n gymdeithasol o fewn a'r tu allan i'r Parc, er mwyn adlewyrchu agenda cynhwysiant cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad ac, er enghraifft, darganfyddiadau'r prosiect Mosaic gan Gyngor y Parciau Cenedlaethol.
- **Mynediad** i'r Parciau Cenedlaethol a materion trafnidiaeth cysylltiedig, yn enwedig i rai nad oes ganddynt geir preifat.

4.37 Mae'r cwestiynau y bydd efallai angen eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Rheoli yng nghyswllt yr ail bwrpas yn cynnwys:

- Sut i sicrhau bod gan y Parc Cenedlaethol strategaeth hyrwyddo gyffredin sy'n



cydnabod nad yw Awdurdod y Parc ond yn un o nifer o sefydliadau a fydd yn hyrwyddo'r Parc i'r byd ehangach?

- Sut ddylai Awdurdod y Parc integreiddio ei wasanaethau hamdden gyda darparwyr eraill o fewn y Parc Cenedlaethol?
- Sut y gall y broses reoli gynyddu cyfleoedd hamdden a mwynhad ac ansawdd y profiad o fewn y Parc Cenedlaethol? Pwy ddylai'r gynulleidfa darged fod?
- Pa weithgareddau hamdden y dylid eu hannog ar draws y Parc Cenedlaethol heb achosi gwrthdaro gyda gweithgareddau eraill?
- Pa weithgareddau hamdden sydd â gofynion a nodweddion arbennig ynghyd â'r potensial i wrthdaro gyda defnyddiau eraill o fewn y Parc ac, felly, sydd angen rheolaeth fwy penodol arnynt?

■ A oes angen lleoli rhai gweithgareddau hamdden mewn ardaloedd y tu allan i ffiniau'r Parc?

■ Sut y gellir hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy fel un o gonglfeini'r diwydiant twristiaeth o fewn y Parc Cenedlaethol, gyda phwyslais ar gefnogi'r economi leol a helpu i angori nodweddion arbennig y Parc?

4.38. Mae trafndiaeth yn debygol o fod yn bwnc llosg o fewn y Parciau Cenedlaethol, tra'n cydnabod bod y mwyafrif llethol o ymwelwyr yn teithio i'r Parciau mewn ceir preifat. Mae'n fater yr un mor bwysig ar gyfer y boblogaeth breswyl, gyda'r cynnydd parhaus mewn cymudo a dirywiad y gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, sy'n arwain at ynysu'r garfan o bobl sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol yn y Parciau ymhellach.

4.39 Mae'r tueddiadau hyn yn gwneud y gwaith o reoli traffig a hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus yn fater pwysig sy'n effeithio ar bobl leol, ymwelwyr ac ar reolaeth o'r Parciau yn gyffredinol, nid lleiaf o ran cwrdd ag agenda datblygu cynaliadwy ac anghenion pobl sydd wedi eu heithrio'n gymdeithasol, o fewn y Parciau eu hunain ac i rai sydd eisiau dod iddynt o bell. Mae gan draffig hefyd oblygiadau dwfn i gyflawni'r pwrpas cyntaf, yn enwedig o ran tangnefedd.

4.40 Y materion arbennig i'w hystyried yw:

■ Darparu cysylltiadau, ar wahân i deithio mewn ceir, o gefn gwlad ehangach i'r Parc Cenedlaethol.

■ Ceisio integreiddio gwahanol ddulliau trafndiaeth, gan gynnwys llwybrau beicio a chynlluniau llogi beics.

■ Darparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus sy'n diwallu anghenion ymwelwyr a chymunedau lleol fel ei gilydd.

■ Ystyried mesurau tawelu traffig a gwneud defnydd hamdden diogel o ffyrdd bach.

■ Ystyried mesurau tawelu traffig a gwneud defnydd hamdden diogel o ffyrdd bach.

Lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol

4.41 Mae pynciau y gellir eu hystyried gyda'i gilydd neu'n unigol o dan ddyletswydd economaidd-

gymdeithasol Adran 62(1) yn cynnwys:

■ Diwygio'r Polisi Amaeth Cyffredin a'i oblygiadau i hyfywedd ffermio a'i gyfraniad at yr economi leol.

■ Arallgyfeirio'r economi ffermio i helpu i gadw ffermydd yn hyfyw, tra'n ystyried yr agweddau ar arallgyfeirio fferm sydd fwyaf priodol yng nghyd-destun pwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

■ Rôl ganolog twristiaeth gynaliadwy ar gyfer datblygu'r economi leol mewn ffyrdd sy'n cefnogi pwrpas cyntaf y Parciau Cenedlaethol. Mae hyn yn cydnabod mai twristiaeth yw'r dylanwad mwyaf ar economi'r Parciau Cenedlaethol.

■ Pwysu a mesur cymeriad yr economi wledig ehangach yn y Parc a pha mor gydnaws ydyw â chyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac â chynnal lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol.

■ Cynnal y cyfalaf cymdeithasol – hynny yw, y rhwydweithiau o gyd-gefnogaeth a chynhaliaeth sy'n clymu cymunedau yn ei gilydd ac yn eu gwneud yn ddigon gwydn i wrthsefyll newid. Mae hyn yn nodwedd arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig agos sydd wedi parhau i fod yn hunan-ddibynnol i raddau helaeth.

■ Darparu gwasanaethau a chyfleusterau lleol – a'u cysylltu i ddarganfyddiadau'r Strategaethau Cymunedol.

■ Mynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy sydd bellach yn un o'r prif bryderon mewn nifer o gymunedau gwledig.

■ Hyrwyddo rôl trefi marchnad yn y Parciau fel cymunedau cynaliadwy sy'n cynnig cyfleoedd i sefydlu busnesau cynaliadwy sy'n gallu helpu i gynnal lles economaidd / cymdeithasol y Parc, er nad ydynt o reidrwydd yn wledig eu cymeriad.

■ Ynni adnewyddadwy a hunan-gynhaliaeth gyda chymorth ar gyfer dulliau dyfeisgar er mwyn cwrdd ag anghenion adnoddau naturiol ac ynni lleol, ar raddfa ac o fath sy'n gydnaws â'r ardal leol. Yn wir, dylai pwyslais ar gymunedau hunan-gynhaliol fel rhan o

agenda datblygu cynaliadwy'r Parciau Cenedlaethol fod yn nod pwysig.

- Hyrwyddo sgiliau gwledig a hyfforddiant sy'n cysylltu i ddarparu pwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

4.42 Materion arbennig i'w hystyried yw:

- Sut i ymateb i'r newidiadau i economïau a chymunedau cefn gwlad lle nad oes ond cyfran fechan o gymunedau lleol yn cyfranogi'n weithredol yn y diwydiannau gwledig traddodiadol?
- Sut i gefnogi mân fusnesau lleol sy'n cysylltu'n uniongyrchol i ddarparu pwrpasau'r Parc?
- Sut i gadw arian yn cylchdroi yn yr economi leol, yn enwedig mewn ffyrdd sy'n helpu i gefnogi darparu pwrpasau'r Parc?
- Sut i gynnal a chryfhau'r rhwydweithiau a'r systemau cyd-gynhaliaeth hynny sydd mor greiddiol i fywiogrwydd a dyfodol y cymunedau gwledig?
- Sut i wella dealltwriaeth o'r cyfraniad economaidd helaeth a wneir gan y Parc Cenedlaethol i'w hardal?

4.45 Gyda'i gilydd, mae'r ddau ffactor hwn yn golygu bod Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn genedlaethol bwysig. Felly, mae amcanion a pholisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cael blaenoriaeth dros bolisi rhanbarthol a lleol o ran ei gymhwysiad yn y Parciau Cenedlaethol. Yn wir, dylid adlewyrchu angenrheidiau pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol.

Cynllunio datblygu

4.43 Nid oes angen sôn am gynllunio yn y Cynllun Rheoli ond yng nghyswllt gosod y cyd-destun polisi y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gweithredu o fewn iddo. Y Cynllun Datblygu fydd un o'r dulliau a ddefnyddir i ddarparu amcanion y Cynllun Rheoli.

CYSYLLTU I GYNLLUNIAU A STRATEGAETHAU ERAILL

4.44 Mae'r Parciau Cenedlaethol yn ddynodiad cenedlaethol, wedi ei wreiddio mewn deddfwriaeth, a'i ddiffinio gan bwrpasau'r Parciau Cenedlaethol. O dan Adran 62(2) Deddf yr Amgylchedd 1995, rhaid i bob awdurdod perthnasol ystyried pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol ym mhopeth a wneir ganddynt o fewn y Parciau.

5. MONITRO AC ADOLYGU

ADOLYGU

- 5.1 Mae monitro ac adolygu yn rhan hanfodol o broses y Cynllun Rheoli, gyda phob adolygiad yn olynol o'r Cynllun yn adeiladu ar ganlyniadau'r monitro a wnaed o'r Cynllun blaenorol – beth sydd, a beth sydd heb ei gyflawni, tra'n ystyried hefyd pa newidiadau sydd wedi digwydd yn y Parc a'r newidiadau i'r cyd-destun polisi. Dylai Cynlluniau ddysgu oddi wrth ei gilydd yn olynol.
- 5.2 Mae monitro hefyd yn un o brif elfennau Asesiad SEA y Cynllun (Atodiad 1(40)).

ASESU LLWYDDIANT Y CYNLLUN - MONITRO

- 5.3 Ar lefel sylfaenol, mae angen gwahaniaethu rhwng:

- Monitro, sef y broses o gasglu data i ddisgrifio'r cyflwr ac, o'i gasglu dros amser, unrhyw newid.
- Dangosyddion, sef yr elfennau data a gesglir yn ystod rhaglen fonitro i roi ffocws i'r gwaith monitro ac i fesur newid.
- Gwerthuso, sef ystyried a defnyddio'r data a gasglwyd i asesu pa mor effeithiol yw'r Cynllun a'i lwyddiant gyda darparu ei amcanion a'i weledigaeth.

- 5.4 I fonitro llwyddiant y Cynllun, bydd angen ateb tri chwestiwn:

- Pa agweddau ar y Cynllun y dylid eu monitro?
- Pa fathau o ddangosyddion y dylid eu monitro?
- Faint o ddangosyddion y dylid eu monitro?

- 5.5 I ateb y cwestiynau hyn, awgrymir y canlynol:

- Dylai monitro ganolbwyntio ar ddarparu'r Cynllun Gweithredu ac ar gyflawni amcanion y Cynllun Rheoli ac amcanion yr Asesiad SEA (Atodiad 1 (18 – 21)). Dylai'r monitro hwn gysylltu i Gynllun Perfformiad y Parc Cenedlaethol.

- Yn achos y Cynllun Gweithredu, dylai'r pwyslais fod ar fesur allbwn neu weithgareddau, h.y. monitro i ba raddau y cyflawnwyd y targedau yn y Cynllun Gweithredu. Mae'r rhain yn debygol o fod ar ffurf allbwn fel casglu data, sefydlu partneriaethau a chyflawni prosiectau penodol. Y ffordd orau o fonitro'r rhain yw drwy asesu'r gweithgareddau yn barhaus, ac adrodd arnynt mewn Cynlluniau Busnes blynyddol.

- Yn achos monitro'r amcanion, dylai'r pwyslais lle bynnag y bo hynny'n bosibl fod ar fonitro dangosyddion y canlyniadau, fel ehangder a chyflwr cynefinoedd neu faint o hawliau tramwy sydd mewn cyflwr da. Dyma'r dangosyddion pwysicaf gan fod eu ffocws ar a ydyw ansawdd y Parc Cenedlaethol yn cael ei gynnal a'i wella.

- Yn achos monitro'r amcanion, dylai'r pwyslais lle bynnag y bo hynny'n bosibl fod ar fonitro dangosyddion y canlyniadau, fel ehangder a chyflwr cynefinoedd neu faint o hawliau tramwy sydd mewn cyflwr da. Dyma'r dangosyddion pwysicaf gan fod eu ffocws ar a ydyw ansawdd y Parc Cenedlaethol yn cael ei gynnal a'i wella.

- 5.6. Mae angen dethol y dangosyddion i fesur canlyniadau yn ofalus iawn. Dylai'r pwyslais fod ar ddangosyddion dibynadwy i fesur ansawdd yn ogystal â maint neu nifer. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen dethol dangosyddion 'procsi', h.y. mesurau nad ydynt yn mesur cyflwr yn uniongyrchol ond lle gellir dod i gasgliad ynghylch cyflwr. Un enghraifft o hyn fyddai faint o ffermydd sydd wedi ymuno â chynlluniau amaeth-amgylchedd, fel dangosydd procsi ar gyfer rheoli cynefinoedd lled-naturiol.

- 5.7. Mae'r ffactorau arbennig a ddylai dywys y dewis o ddangosyddion yn cynnwys:

- dylent gyfleu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a mesur yn glir i ba raddau y darperir yr amcanion rheoli;
- dylai'r monitro fod yn syml ac ni ddylai fod yn feichus;
- dylid defnyddio'r dangosyddion hynny sydd eisoes yn cael eu monitro fel rhan o'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc neu sydd eisoes

yn cael eu casglu gan eraill fel rhan o
raglenni monitro eraill;

- dylai fod potensial i rannu rhai
dangosyddion allweddol rhwng y Parciau fel
y gellir gwneud cymariaethau rhwng y
Parciau.

- 5.8 Dylid cofio nad yw dangosyddion yn rhoi darlun llawn. Ni all dangosyddion ragweld yr annisgwyl ychwaith.
- 5.9 Bydd monitro'r Cynllun Rheoli yn orchwyl fydd yn cael ei rhannu, gyda chyfrifoldeb (yn ddelfrydol) yn cael ei ddyrannu i'r sefydliadau hynny sydd â'r diddordeb mwyaf mewn dangosyddion arbennig.
- 5.10 Mae cyflwyno adroddiadau rheolaidd a hygyrch ar ganlyniadau'r monitro – ar gynnydd y Cynllun Gweithredu a gyda chyflawni amcanion y Parc drwy'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc – yn ffordd bwysig o sicrhau bod rhanddeiliaid yn parhau i gyfrannu at y broses.

ADOLYGU'R CYNLLUN

- 5.11 Ym Mhennod 4, rydym wedi dadlau y dylai Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol gael ei arwain gan amcanion. Mae'r amcanion hyn yn rhoi'r cyfiawnhad dros y polisïau a'r gweithredoedd a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli. Mae'r drefn hon yn golygu bod proses yr adolygiad, a'r ymateb i'r monitro ac i unrhyw newidiadau annisgwyl, yn gallu bod yn systematig ac agored. Felly, gellir gwneud unrhyw newid angenrheidiol i'r amcanion, ac olrhain effaith hyn drwy'r polisïau a'r Cynllun Gweithredu, a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol pellach heb fod angen ailasesu'r gyfres bolisi gyfan (Atodiad 1(2)).

6. FFORMAT

6.1 Nid oes unrhyw fformat sefydlog ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Bydd angen i'r fformat adlewyrchu'r amgylchiadau lleol. Er hynny, rhaid gofalu sicrhau bod y Cynllun:

- yn aros yn strategol;
- yn ddogfen wedi'i diffinio'n glir;
- yn addas ar gyfer cynulleidfa eang;
- yn hawdd i'w ddeall;
- yn sicrhau integreiddio rhwng gwahanol feysydd pwnc er mwyn mwynhau'r manteision i'r cyhoedd a lleihau unrhyw wrthdaro posibl.
- yn caniatáu ar gyfer diweddaru'r Cynllun Gweithredu yn rheolaidd, drwy ei adolygu pob blwyddyn neu ddwy fel arfer.

FFORMATAU ELECTRONIG

6.2 Hyd yma, cynhyrchwyd Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol, fel y rhan fwyaf o ddogfennau tebyg, mewn ffurf argraffedig ond maent hefyd ar gael yn gynyddol ar y we mewn ffurf pdf. Bydd angen copïau papur o hyd, ond mae'r dogfennau electronig, er enghraifft ar ffurf gwefan, yn tyfu'n fwyfwy pwysig ac yn cynnig:

- mwy o hyblygrwydd ac yn caniatáu i'r Cynllun gael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd;
- mwy o sgôp i integreiddio gwahanol rannau o'r Cynllun yn well;
- cyfleoedd llawer gwell i ddosbarthu'r Cynllun;
- mwy o botensial ar gyfer rhoi ffocws daearyddol i'r Cynllun drwy ddefnyddio GIS, sydd hefyd yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr weld gwybodaeth yn ofodol.

6.3 Mae gwefannau hefyd yn rhoi mwy o opsiynau i ddefnyddiwr y Cynllun, yn bennaf drwy'r cyfle i sefydlu cysylltiadau o fewn y Cynllun ei hun a hefyd i ddogfennau, gwybodaeth, enghreifftiau,

arferion gorau, rhwydweithiau a chysylltiadau eraill ac yn y blaen – y tu allan i'r Cynllun. Mae hyblygrwydd cynhenid y wefan hefyd yn cynnig ei hun yn dda iawn i'r syniad o adolygu gwahanol rannau o'r Cynllun ar wahanol adegau, ac yn ddefnyddiol iawn ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth bwysig am y Cynllun yn cael ei diweddaru'n gyson.

6.4 Ond o ran y dyfodol rhagweladwy, bydd angen trosolwg argraffedig ar y Cynllun, sy'n nodi ei brif agweddau ac yn ei wneud yn hygyrch i gynulleidfa mor eang â phosibl (a chydabod hefyd y diffyg mynediad presennol at Fand Eang mewn ardaloedd gwledig).

6.5 Y tu hwnt i hyn, bydd potensial amlwg i ddefnyddio'r Cynllun, drwy ei wefan, fel cyfeiriadur i dywys gwaith Awdurdod y Parc a'i bartneriaid gyda chyflawni pwrpasau a dyletswydd economaidd-gymdeithasol y Parciau Cenedlaethol. Nid yw hyn wedi digwydd eto, ond o ystyried pwysigrwydd craidd meithrin partneriaethau effeithiol, mae'n werth ei ystyried.

ATODIAD 1: ASESIAID AMGYLCHEDDOL STRATEGOL CYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL

YR ANGEN AM YR ASESIAID AMGYLCHEDDOL STRATEGOL (ASESIAID SEA)

1. O dan Erthygl 4 y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (2001/42 EC), rhaid cyflawni Asesiad SEA ar gyfer pob cynllun a rhaglen defnydd tir lle mae'r cynlluniau a'r rhaglenni hynny yn debygol o gael effaith helaeth ar yr amgylchedd. Mae'r meini prawf ar gyfer penderfynu beth yw'r effeithiau helaeth tebygol hyn wedi eu nodi yn Atodiad II(2), ac yn cynnwys "effeithiau ar ardaloedd neu dirluniau sydd â statws gwarchodaeth cenedlaethol, cymunedol neu ryngwladol". Mae'r Gyfarwydddeb yn cael ei dehongli'n gyfreithiol gan Reoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (2004). O ran eu natur, mae Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol wedi eu dyfeisio i warchod a gwella amgylchedd y Parciau ac mae'n annatod y byddant yn cael effaith lesol sylweddol.
2. Mae'n glir felly y bydd angen Asesiad SEA ar bob Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol newydd a gynhyrchir ar ôl 2004, neu unrhyw ddiwygiadau helaeth a wneir iddynt. Yn y dyfodol, Awdurdod y Parc fydd yn penderfynu a oes angen cyflawni Asesiad SEA pellach o fân ddiwygiadau i Gynllun sydd eisoes wedi bod drwy'r broses Asesu Amgylcheddol. Er hynny, os bydd y cyngor yn y canllawiau hyn yn cael ei ddilyn, bydd Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, yn y dyfodol, yn cael ei gysylltu'n agos i'r broses o baratoi Adroddiadau ar Gyflwr y Parc ac i'r gwaith o fonitro'r cyflwr amgylcheddol. Felly, dylai'r Asesiad SEA fod yn rhan annatod o broses y Cynllun Rheoli.

YR ANGEN AM GANLLAWIAU AR GYFER ASESIAID SEA O GYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL

3. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cael ei baratoi yn unol â Deddf yr Amgylchedd 1995 ac nid o dan Ddeddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (a gyflwynodd y system cynllunio gofodol newydd). Felly, mae Cynlluniau Rheoli yn wahanol i Gynlluniau Datblygu Lleol ac mae

angen dull gwahanol o gyflawni'r Asesiad SEA i adlewyrchu pwrpasau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, dylid integreiddio'r broses o baratoi'r Cynllun Rheoli gyda'r broses o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol.

4. Yn benodol, prif ffocws y Cynllun Rheoli, ac felly ei Asesiad SEA, yw darparu pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Felly, bydd y dyletswydd Adran 62(1) – sy'n ymwneud â chynnal lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau yn y Parc – o fewn y cyd-destun hwn (para 2.2 uchod).

EGWYDDORION ARWEINIOL ASESIAID SEA Y CYNLLUN RHEOLI

5. Yn achos Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, fydd â ffocws clir ar yr amgylchedd ac ar ddarparu pwrpasau'r Parc, dylai ei werthusiadau ganolbwyntio'n gryf ar effeithiau amgylcheddol. Felly, rhaid i'r pwyslais fod ar yr Asesiad SEA. Er hynny, bydd angen i'r Asesiad hwn adlewyrchu'r dyletswydd Adran 62(1) a'r pwyslais ehangach ar ddatblygu cynaliadwy.
6. O ganlyniad, dylid cyflawni Asesiad SEA y Cynllun Rheoli o fewn fframwaith sy'n cymhwyso cyfres sylfaenol o amcanion a dangosyddion amgylcheddol yn ogystal ag ail gyfres o amcanion a dangosyddion cynaliadwyedd ehangach. Bydd hyn yn sicrhau bod Asesiad y Cynllun Rheoli yn cwrdd yn llawn â gofynion y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol A HEFYD ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn gyson â barn Llywodraeth y Cynulliad ei bod yn bosibl bodloni gofynion y Gwerthusiad Cynaliadwy a'r Asesiad SEA drwy gyflawni ond un gwerthusiad (Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol, 2006).

Y BROSES O BARATOI ASESIAID SEA Y CYNLLUN RHEOLI

7. Er mwyn cysondeb, mae'r cyngor hwn yn dilyn y camau sylfaenol o baratoi Asesiad SEA fel a gyflwynir yng Nghanllawiau Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, sydd â phum cam sylfaenol.

Rhoddir disgrifiad technegol mwy manwl o'r camau mewn canllawiau eraill :

- Cam A Cwmpasu (Materion Allweddol, Data Amgylcheddol Cychwynnol, Darogan Tueddiadau, Cynlluniau a Pholisïau Perthnasol, Amcanion, Ystyried Opsiynau, Adroddiad Cwmpasu, Ymgynghori)
- Cam B Asesu (Datblygu a diwygio'r opsiynau ac asesu effeithiau)
- Cam C Paratoi Adroddiad Amgylcheddol
- Cam Ch Ymgynghori ac Adolygu
- Cam D Monitro
- Cam Dd Cwmpasu

Cam A Cwmpasu

8. Yn ei hanfod, mae'r Asesiad SEA yn broses ailadroddol ac efallai y bydd angen asesu rhai mewnbynnau drachefn wrth i fwy o wybodaeth ac wrth i faterion newydd godi yn ystod yr asesiad. Isod, cyfunir ystod o weithgareddau o dan y pennawd Cwmpasu i'w gwahaniaethu o'r dasg asesu ei hun.

Cadarnhau manylion methodoleg yr Asesiad SEA

9. Wrth i Asesiad SEA fwrw yn ei flaen, gallai fod yn briodol diwygio trefn y gwahanol gamau neu gynnwys gweithgareddau ychwanegol i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol. Dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid a grwpiau budd eraill.

Adnabod y materion allweddol

10. Mae aelodau a staff Awdurdodau'r Parciau eisoes yn bur ymwybodol o'r pwysau sy'n effeithio ar amgylchedd pob Parc, a'r cyfleoedd i wella'r amodau presennol. Mae angen adnabod y materion hyn fel rhan o broses y Cynllun Rheoli, ond mae angen i'r rhai sy'n cyflawni'r Asesiad SEA hefyd wneud adolygiad annibynnol o'r materion allweddol. Mae'r broses hon yn golygu ystyried

achos ac effaith ac wedi'i chysylltu'n agos i adolygu'r data amgylcheddol cychwynnol (isod).

Casglu'r data cychwynnol

11. Mae casglu'r data cychwynnol yn rhan hanfodol o'r broses cynllunio rheoli ac felly yn dasg integredig a fydd yn cynorthwyo'r Cynllun Rheoli, Asesiad SEA y Cynllun Rheoli a hefyd y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol a'i Werthusiad Cynaliadwyedd yntau. Ar gyfer y Cynllun Rheoli a'i Asesiad SEA, bydd yn bwysig dethol data sy'n berthnasol i'r materion allweddol, ac y gellir ei ddefnyddio'n effeithiol i fonitro yn y dyfodol. Yn ei dro, dylai dethol y data oleuo a chael ei oleuo gan ddewis priodol o amcanion a dangosyddion ar gyfer yr Asesiad SEA.
12. Bydd y gwaith o goladu'r data cychwynnol yn cael ei gynorthwyo'n fawr gan yr Adroddiadau ar Gyflwr y Parc.

Darogan tueddiadau amgylcheddol

13. Cam pwysig mewn asesu effeithiau sylweddol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar yr amgylchedd yw deall beth sy'n debygol o ddigwydd i amodau neu gyflwr yr amgylchedd heb unrhyw ymyrraeth cynlluniedig. Yn amlach na phheidio, mater o gymhwyso tueddiadau'r gorffennol i'r dyfodol fydd hyn; fel amcangyfrif y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a darogan effaith hamdden ar gynefinoedd pwysig. Dylai'r sylwebaeth ar y newidiadau tebygol i gyflwr yr amgylchedd rychwantu cyfnod llawn y Cynllun Rheoli, er os cymerir gorwel amser o 20-25 o flynyddoedd, bydd y sylwadau hyn yn oddrychol ac yn seiliedig ar farn yn hytrach nag ar fodelu manwl.

Ystyried cynlluniau a pholisïau perthnasol

14. Dylai'r adolygiad hwn nodi pam y datblygir y Cynllun Rheoli – h.y. i ddarparu pwrpasau a dyletswydd Adran 61(1) y Parciau Cenedlaethol – a sut y mae'r Cynllun Rheoli yn ymgysylltu â chynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill. Dylai'r adolygiad hwn nodi hierarchaeth y gwahanol gynlluniau a rhaglenni perthnasol, a chyfeirio fel bo'n briodol at Gyfarwyddbau Ewropeaidd, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol a dogfennau lleol eraill. Lle mae cynlluniau neu

ODPM/SE/WAG/DOE (2005) *Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive*
ODPM (September 2005) *Strategic Environmental Assessment Directive*
CCGC et al (Mai 2004) *Strategic Environmental Assessment and Climate Change: Guidance for practitioners*

raglenni lefel uwch eisoes wedi derbyn Asesiad SEA, gellir defnyddio'r wybodaeth yma i helpu i baratoi'r Adroddiad (Erthygl 4 (3) ac Erthygl 5 (2) a (3)) ar Asesiad SEA y Cynllun Rheoli.

15. Mae'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol hefyd yn nodi bod angen asesu a fydd canlyniad y Cynllun y cyflawnir yr Asesiad SEA arno yn debygol neu beidio o effeithio ar amcanion amgylcheddol sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddbau Ewropeaidd eraill, gan gynnwys y Gyfarwydddeb Asesu Effaith Amgylcheddol a'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Mae'r olaf yn ystyriaeth arbennig o bwysig lle mae'r Cynllun Rheoli yn debygol o gael effaith sylweddol ar gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig sy'n dod o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd (92/43/EEC). Yn yr amgylchiadau hyn, mae angen i'r Asesiad SEA ymgorffori, neu gynnwys cyfeiriad at, asesiad priodol.
16. Fel rhan o'r ymarfer Cwmpasu ar gyfer Asesiad SEA y Cynllun Rheoli, felly, mae'n bwysig bod yr holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a'r Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yn cael ei nodi ac unrhyw faterion sy'n berthnasol i'w cyflwr amgylcheddol presennol ac i'r dyfodol, a'r bygythiadau iddynt, yn cael eu nodi'n glir. Gellir yna gwerthuso effaith cynigion neu bolisïau'r Cynllun ar y cynefinoedd gwarchodedig hyn neu ar ardaloedd sensitif eraill yng Ngham B: Asesu'r Asesiad SEA.

Gosod amcanion amgylcheddol

17. Er mwyn paratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, mae angen datblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Parc, ar sail creu senarios ac ymgynghori ar opsiynau (para 3.23 - 3.25). Y weledigaeth a'i hamcanion cysylltiedig sy'n penderfynu beth fydd cynnwys manwl y Cynllun o ran ei bolisïau a'i weithredoedd. Dylai'r broses hon arwain at amcanion Cynllun sydd mewn cytgord llwyr â'r amcanion amgylcheddol, ond gallai fod adegau pan fydd amcanion y Cynllun yn gwrthdaro â'i gilydd. Rhan o rôl yr Asesiad SEA yw lleihau'r gwrthdaro hwn a gwella'r cytgord rhwng y gwahanol elfennau o'r Cynllun Rheoli. Felly, mae'r Asesiad SEA yn groeswiriad defnyddiol.
18. Er mwyn asesu a monitro effeithiolrwydd tebygol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol o ran sut y

bydd yn gallu delio â phroblemau a chyfleoedd amgylcheddol neilltuol, dylid datblygu cyfres annibynnol o amcanion amgylcheddol, wedi eu cysylltu i'r data cychwynnol (h.y. heb gyfeirio at amcanion y Cynllun). Ym Mluch 1, rhoddir rhestr awgrymol sy'n seiliedig ar y meini prawf amgylcheddol a nodir yn y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Bwriad y rhestr yw darparu man cychwyn a dylid ei haddasu neu ei hymestyn fel bo'n briodol.

Bluch 1: Rhestr awgrymol o amcanion amgylcheddol

1. Gwarchod a gwella'r tirlun
2. Gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella bioamrywiaeth (cynefinoedd)
3. Gwarchod a gwella ffawna a fflora (rhywogaethau unigol)
4. Gwarchod a gwella ansawdd y pridd
5. Gwarchod dŵr
6. Gwarchod yr aer a'r hinsawdd
7. Cynnal y dreftadaeth ddiwylliannol (gan gynnwys y dreftadaeth bensaernïol ac archeolegol)
8. Gwarchod asedau deunyddiau, gan gynnwys adnoddau naturiol
9. Sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar y boblogaeth (h.y. y cydbwysedd demograffig)
10. Diogelu iechyd pobl
11. Osgoi unrhyw effeithiau andwyol sylweddol a ysgogir gan y gydberthynas rhwng yr uchod.

19. Y pwrpas y tu ôl i adnabod yr amcanion amgylcheddol yw sicrhau y gellir adolygu'r polisïau a'r gweithredoedd a gynigir yn y Cynllun Rheoli yn systematig yn erbyn unrhyw effeithiau amgylcheddol helaeth posibl yn codi o'r Cynllun.
20. I gynorthwyo'r broses ddilynol o fonitro'r effeithiau amgylcheddol, mae'n hanfodol bod yr amcanion hyn yn cael eu cefnogi gan gyfres o ddangosyddion mesuradwy. Gellir yna rhannu'r dangosyddion hyn gyda'r rhai a ddefnyddir i fesur cyflawni amcanion y Cynllun Rheoli (para 3.19). Y broses o fonitro'r dangosyddion hyn dros amser fydd yn cael ei hadrodd yn yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc.

Gosod amcanion cynaliadwyedd eraill

21. Mae'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn pwysleisio bod angen integreiddio'r mesurau i warchod yr amgylchedd gyda pholisïau a gweithgareddau cymunedol eraill, yn enwedig er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.
22. Felly, mae'n briodol ystyried cyfres ehangach o amcanion cynaliadwyedd sy'n delio â sbectrwm llawn y strategaeth datblygu cynaliadwy DU gyfan. Mae Blwch 2 yn rhoi enghreifftiau o'r categorïau a'r mathau o amcanion y gellir eu hystyried. Fel arfer, bydd y broses o lunio rhestr amcanion o'r fath yn deillio o ddadansoddi Gwerthusiadau Cynaliadwy / Asesiadau Amgylcheddol Strategol eraill, adolygu swyddogion mewnol a thrafodaeth gyda rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae hefyd angen profi'r amcanion hyn i weld a ydynt yn gydnaws â'r amcanion amgylcheddol. Er enghraifft, mae'r cysyniad o gynyddu'r gyfran o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn un dymunol iawn mewn Parciau Cenedlaethol, ar yr amod y gellir gwneud hyn mewn ffyrdd sy'n gydnaws â phwrsasau'r Parc. Efallai y bydd hyn yn cyfyngu ar y dulliau o gynhyrchu ynni adnewyddadwy er mwyn diogelu'r tirlun, bioamrywiaeth a'r dreftadaeth ddiwylliannol
23. Wrth ystyried rôl yr amcanion cynaliadwyedd eraill, y cam cyntaf o reidrwydd fydd sicrhau bod polisïau a gweithredoedd y Cynllun Rheoli yn gwbl gytun ag amcanion amgylcheddol yr Asesiad SEA. Unwaith y bydd hyn wedi'i gadarnhau, gellir yna cymhwyso'r ail gyfres o amcanion cynaliadwyedd ehangach.

Ystyried Opsiynau Eraill

24. Mae'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn mynnu bod 'opsiynau eraill' yn lle'r senarios a ddewisir yn cael eu hystyried lle mae dewisiadau realistig. Mae'n llawer haws ystyried opsiynau eraill yn ystod cam ffurfiannol y Cynllun Rheoli ac yng ngham cwmpasu'r Asesiad SEA, yn hytrach na'u cyflwyno ar ôl dod i benderfyniad terfynol ynghylch y weledigaeth a'r amcanion. Dylid cyfeirio at yr opsiynau eraill hyn yn yr Adroddiad Cwmpasu. Bydd cyfleoedd i ystyried senarios cwbl wahanol yn cael eu cyfyngu i gamau cynnar y Cynllun Rheoli, ond mae gwahanol ffyrdd o ddarparu'r weledigaeth a'r amcanion dal yn debygol o godi nes ymlaen, a dylid adrodd ar y rhain yn yr adroddiad amgylcheddol llawn.

Blwch 2: Enghreifftiau o amcanion cynaliadwyedd eraill

- S1. Creu cymunedau mwy bywiog, cydlynus, diogel a chymysg

[drwy sicrhau bod gan bawb gartref cysurus; drwy gefnogi datblygiad gwasanaethau cymunedol; drwy weu diogelwch i ddyluniad; drwy ddarparu amrywiaeth o dai i gwrdd ag angen lleol; drwy gywiro unrhyw anghydbwysedd demograffig ac economaidd-gymdeithasol]

Dalier sylw:efallai na fydd cymunedau 'diogel', 'cydlunus' a 'chymysg' yn gydgyngaliol a bydd yn bwysig nodi beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer cymunedau'r Parc o fewn cyd-destun lleol.
- S2. Gwarchod ansawdd a chymeriad aneddiadau a chymunedau unigol

[drwy hyrwyddo safonau uchel o ddylunio adeiladau sy'n cydweddu â chymeriad y datblygiadau cyfagos; drwy ddefnyddio deunyddiau lleol; drwy hyrwyddo canllawiau dylunio lleol (yn enwedig lle nad oes deunyddiau adeiladu lleol traddodiadol mwyach ar gael); a thrwy gefnogi gwasanaethau lleol]
- S4. Gwarchod yr amgylchedd, y bobl ac eiddo rhag perygl llifogydd
- S5. Lleihau'r angen a'r awydd i deithio mewn ceir

[drwy wella telathrebu; drwy ganolbwyntio datblygu newydd o fewn neu gerllaw aneddiadau presennol lle (a) mae gwaith a gwasanaethau yn eithaf hunan-gynhaliol neu (b) mae trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei darparu ac yn cael ei defnyddio'n dda i gyrraedd canolfannau cyflogaeth a gwasanaeth]
- S6. I hyrwyddo ffordd iach o fyw

[drwy ddarparu digon o leoedd agored a chyfleusterau chwaraeon a hamdden i ddiwallu anghenion lleol; drwy wella mynediad at a mwynhad y cyhoedd o gefn gwlad]
- S7. Codi safonau addysg a hyfforddiant a hyrwyddo sgiliau cyflogaeth
- S8. Hyrwyddo datblygu economi sy'n cynnal amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol

[drwy gefnogi busnesau sy'n cyfrannu at neu sy'n cael effaith isel ar yr amgylchedd; drwy gefnogi busnesau sy'n lleihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol]
- S9. Hyrwyddo llywodraethu da

Box 2: Examples of other sustainability objectives (cont)

S10 Lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol gan gynnwys tanwyddau ffosil, mwynau, cymryd tir a dŵr

[yng nghyswllt trafnidiaeth – lleihau'r angen i deithio; hyrwyddo cerdded a beicio; hyrwyddo defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

yng nghyswllt rheoli gwastraff – drwy leihau gwastraff diwydiannol, masnachol a domestig; annog mwy o aildddefnyddio ac ailgylchu; adennill ynni o wastraff.

yng nghyswllt defnyddio trydan a nwy – drwy leihau'r defnydd a wneir ohonynt; drwy arbed mwy o ynni; cynyddu'r gyfran o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir.

yng nghyswllt mwynau – drwy leihau'r galw am ffynau cynradd; drwy gynyddu'r defnydd o ffynau eilaidd.

yng nghyswllt defnyddio dŵr – ar gyfer dibenion amaethyddol, diwydiannol a domestig.

yng nghyswllt cymryd tir – drwy gynyddu dwyster datblygu; drwy ddatblygu safleoedd tir llwyd]

Paratoi adroddiad cwmpasu

25. O dan y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (SEA), rhaid trafod a chytuno ar gynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol gyda'r cyrff amgylcheddol statudol. Felly, mae'n arfer da paratoi Adroddiad Cwmpasu sy'n nodi'r holl wybodaeth berthnasol a gasglwyd yn ystod Cam A yr SEA ac yn egluro sut y defnyddir y data i baratoi'r Adroddiad Amgylcheddol. Yn unol â'r Rheoliadau mae gan y cyrff amgylcheddol statudol bum wythnos i gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Cwmpasu. Yn dilyn derbyn eu sylwadau, rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddangos yn glir yn yr Adroddiad Amgylcheddol sut yr ystyriodd y sylwadau hynny. Mae Blwch 3 yn cynnwys rhestr awgrymol o'r hyn y dylid ei gynnwys yn yr Adroddiad Cwmpasu.

Blwch 3: Cynnwys awgrymol ar gyfer yr adroddiad cwmpasu

1. Crynodeb o amcanion ac amserlen y Cynllun Rheoli
2. Disgrifiad o fethodoleg ac amserlen yr Asesiad SEA
3. Datganiad o'r Materion Allweddol
4. Crynodeb o'r data amgylcheddol cychwynnol
5. Darogan y tueddiadau amgylcheddol pe na bai unrhyw ymyrraeth gan y Cynllun Rheoli
6. Adolygu'r Cynlluniau a'r Polisiâu perthnasol
7. Adnabod amcanion amgylcheddol yr Asesiad SEA
8. Adnabod amcanion cynaliadwyedd eraill
9. Adolygiad rhagarweiniol o'r opsiynau

Ymgynghori

26. Unwaith y bydd yr Adroddiad Cwmpasu ar yr Asesiad SEA wedi'i gwblhau, bydd yn bwynt priodol i drefnu ymgynghoriad rhagarweiniol gyda chymunedau lleol a Rhanddeiliaid eraill yn ogystal â'r ymgynghoriad statudol gyda chyrff amgylcheddol. Dylid cyfuno'r ymarfer hwn, lle bo hynny'n ymarferol, gyda'r broses gyfochrog o baratoi'r Cynllun Rheoli ac o gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol fel a nodir isod.

Cam B: Asesu

27. Mae'r rhan yma o'r SEA yn golygu cyflawni dadansoddiad systematig o effaith bosibl pob amcan, polisi, cynnig neu weithred yn y Cynllun Rheoli ar yr amgylchedd (Blwch 1) ac ar amcanion cynaliadwyedd eraill (Blwch 2).

Yr asesiad amgylcheddol

28. Mae angen i'r dull o gyflawni asesiad amgylcheddol adlewyrchu gofynion penodol y Gyfarwyddeb SEA o ran mesur effaith. Gellir defnyddio tabl neu fatrics syml i gofnodi'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd o ran:

- Llesol neu andwyol,
- Maint neu ehangder yr effaith,
- Parhad (tymor byr, canolig neu hir

⁷ Wales Statutory Instrument 2004/1656 'The environmental assessment of certain plans and programmes on the environment' (2001/42/EC)

■ Gellir eu gwrth-droi neu maent yn ddiwrthdro (sgôp i liniaru)

■ Effeithiau synergyddol neu gronol tebygol.

Dylid cefnogi'r crynodeb hwn gyda sylwadau mwy manwl yn egluro ar ba seiliau y gwnaed yr asesiad.

Y gwerthusiad cynaliadwyedd

29. Dylai'r asesiad fod dros ardal gyfan y Parc Cenedlaethol ac ystyried hefyd ei osodiad ehangach lle mae materion fel trafndiaeth, tai a chyflenwad dŵr yn croesi ffiniau'r Parc. Mae hefyd yn bwysig ystyried ardaloedd cyfagos a allai gael eu heffeithio gan bolisiau'r Cynllun Rheoli (er enghraifft defnydd tir ar gyfer anifeiliaid wintrin). Yn olaf, dylai'r asesiad dalu sylw arbennig i unrhyw ardaloedd sy'n dod o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Bydd y dadansoddiad hwn yn rhoi'r data cychwynnol y gellir paratoi asesiad priodol ar ei sail.
30. Mae'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (SEA) yn dyfynnu Erthygl 6 Cytundeb y Gymuned Ewropeaidd, sy'n darparu bod yn rhaid integreiddio mesurau i warchod yr amgylchedd o fewn y diffiniadau ar gyfer polisiau a gweithgareddau Cymunedol, yn enwedig o ran hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae felly'n briodol ystyried y materion cynaliadwyedd ehangach sy'n cael eu codi wrth baratoi'r Cynllun Rheoli.
31. Mae technegau gwerthuso cynaliadwyedd yn debyg i'r rhai a ddefnyddir mewn asesiad amgylcheddol ac yn golygu defnyddio matricesau i gofnodi lefelau cynaliadwyedd.
32. Wrth ystyried yr amcanion amgylcheddol a'r rhai cynaliadwyedd, mae'n bwysig nodi bod gan bob corff cyhoeddus ymrwymiad statudol i ystyried pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol, o dan Adran 62(2) Deddf yr Amgylchedd 1995. Mae Adran 62(2) hefyd yn datgan, os ymddengys bod unrhyw wrthdaro rhwng y pwrpasau hyn, bod yn rhaid i'r awdurdod perthnasol roi blaenoriaeth i'r pwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.
33. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi arweiniad clir o ran y pwyslais sydd angen ei roi ar amcanion amgylcheddol, ac yn atgyfnerthu gofynion y Gyfarwydddeb SEA. Felly, mae'n bwysig bod y

'gogor' gyntaf yn asesu a ydyw polisiau'r Cynllun Rheoli yn debygol o gael effaith sylweddol ar asedau amgylcheddol y Parc Cenedlaethol. Yn ymarferol, dylai'r rhan fwyaf os nad pob un o bolisiau'r Cynllun Rheoli gael effaith lesol ac, os felly, dylid cofnodi hynny'n glir. Rhaid hefyd disgrifio unrhyw effaith andwyol a, chyn belled â phosibl, goresgyn neu leihau'r effaith drwy ddatblygu cwrs gweithredu amgenach neu gyflwyno mesurau lliniaru.

34. Ar ôl datblygu neu fireinio'r Cynllun Rheoli i sicrhau bod ei holl bolisiau a gweithgareddau yn cefnogi'r amcanion amgylcheddol (SEA), bydd yn briodol wedyn cymhwyso'r ail gyfres o amcanion cynaliadwyedd. Bydd hyn yn rhoi syniad o'r lefel gynaliadwyedd sy'n cael ei chyflawni ac yn rhoi cyfle pellach i wella neu liniaru. Fodd bynnag, lle mae unrhyw bolisi yn cael ei fireinio i wella ei berfformiad yn erbyn yr amcanion cynaliadwyedd, rhaid yn gyntaf sicrhau na fyddai'r amgylchedd yn cael ei effeithio'n andwyol o ganlyniad.

Cam C: Paratoi'r Adroddiad Amgylcheddol

35. Mae Blwch 4 yn nodi gofynion y Gyfarwydddeb SEA o ran yr hyn sy'n rhaid i'r Adroddiad Amgylcheddol ei gynnwys. Er mwyn ymgorffori darganfyddiadau'r gwerthusiad cynaliadwyedd, , argymhellir bod hyn yn cael ei gynnwys mewn pennod ar wahân. Mae Blwch 5 yn awgrymu strwythur ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol.

Blwch 4: Cynnwys yr Adroddiad Amgylcheddol

- a) amlinelliad o'r cynnwys, prif amcanion y cynllun neu'r rhaglen a'r berthynas gyda chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill;
- b) yr agweddau perthnasol ar gyflwr presennol yr amgylchedd, a'i esblygiad tebygol pe na bai'r cynllun neu'r rhaglen yn cael eu gweithredu;
- c) nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol;
- ch) unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen gan gynnwys, yn enwedig, rhai'n ymwneud ag ardal o bwysigrwydd amgylcheddol neilltuol fel rhai a ddynodwyd o dan Gyfarwydddebau 79/409/EEC a 92/43/EEC. Lle gallai'r Cynllun Rheoli neu gynlluniau a rhaglenni eraill gael effeithiau sylweddol ar yr ardaloedd hyn, neu ar rywogaethau gwarchodedig, dylid cofnodi canlyniadau'r asesiad priodol ynghyd ag asesiad o unrhyw gynlluniau / polisiau amgen a ddyfeisiwyd i osgoi'r effeithiau hyn;
- d) yr amcanion gwarchod yr amgylcheddol, a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, cymunedol neu Ewropeaidd, sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen a sut yr ystyriwyd yr amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol eraill yn ystod y broses o'i baratoi;

- dd) yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys ar bethau fel bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd pobl, fflora, ffawna, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsawdd, asedau deunyddiau, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys y dreftadaeth archeolegol a phensaernïol, tirlun a'r gydberthynas rhwng y pethau hyn;
- e) y mesurau a ddyfeisiwyd i atal, lleihau a chyn belled â phosibl i wrthweithio unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i weithredu'r cynllun neu'r rhaglen;
- f) amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau eraill, a disgrifiad o'r broses asesu gan gynnwys unrhyw drafferthion a gafwyd (fel diffygion technegol neu ddiffyg gwybodaeth) wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol;
- ff) disgrifiad o'r mesurau a ddyfeisiwyd i fonitro yn unol ag Erthygl 10;
- g) crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a roddir o dan y penawdau uchod.



Blwch 5: Cynnwys Awgrymol ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol	
Pennod	Pwnc
1	CYD-DESTUN Rhagarweiniad (cynnwys, disgrifiad o'r broses asesu, prif amcanion y cynllun, y berthynas â chynlluniau a strategaethau eraill), gan gynnwys yr amcanion gwarchod rhyngwladol.
2	DATA CYCHWYNNOL Disgrifiad o gyflwr yr amgylchedd a thueddiadau cyfredol, cymeriad y Parc Cenedlaethol a phroblemau amgylcheddol perthnasol.
3	YR ASESIAD AMGYLCHEDDOL Technegau asesu, pa mor gydnaws yw amcanion y Cynllun â'r amcanion amgylcheddol, asesiad o'r polisiâu unigol a'r gweithredu arfaethedig, y sgôp ar gyfer lliniaru, adolygiad o opsiynau polisiâu / gweithredu eraill.
4	Y GWERTHUSIAD CYNALIADWYEDD Adolygu'r polisiâu a'r gweithredu arfaethedig yn erbyn amcanion cynaliadwyedd eraill.
5	MONITRO Defnyddio dangosyddion a thargedau, a'u cysylltiad i'r adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd.
6	ADOLYGIAD TECHNEGOL Bylchau mewn gwybodaeth, diffygion technegol, y sgôp ar gyfer cyflawni ymchwil newydd
7	ATODIADAU Tablau a Matricsau

Cam Ch: Ymgynghori

36. Un o ofynion ffurfiol y Gyfarwydddeb SEA yw bod yr Adroddiad Amgylcheddol drafft ar gael i'r Cyrff Amgylcheddol Statudol ac i'r Cyhoedd. Yr adeg fwyaf priodol i hyn ddigwydd fydd ar yr un pryd â'r ymgynghori cyfatebol ar Gynllun Rheoli Drafft y Parc Cenedlaethol. Rhaid rhoi cyfnod o bedair wythnos i gyrff ymgynghorol ystyried yr Adroddiad Amgylcheddol ac i anfon eu casgliadau.
37. Rhaid ystyried y sylwadau a ddaw i law yn ystod y cyfnod ymgynghori yn ofalus wrth ddiwygio'r Cynllun Rheoli drafft a'i Adroddiad Amgylcheddol cysylltiedig.
38. Unwaith y bydd y Cynllun Rheoli yn cael ei fabwysiadu, dylai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyhoeddi ei benderfyniad a gwneud datganiad yn cadarnhau sut y cafodd yr ystyriaethau amgylcheddol a gododd o'r Asesiad

SEA, yr Adroddiad Amgylcheddol a'r ymatebion ymgynghorol eu cymryd i ystyriaeth.

Cam D: Monitro

39. Bydd angen i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid fonitro effeithiolrwydd y Cynllun Rheoli i ddangos bod amcanion y Cynllun yn cael eu cyflawni. Ond mae hefyd angen i Awdurdod y Parc a'i bartneriaid fonitro a ydyw'r Cynllun Rheoli yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd fel a ragfynegir yn yr Asesiad SEA. I wneud hyn, bydd angen sefydlu rhaglen fonitro sy'n monitro'r dangosyddion a gafodd eu dethol ar gyfer yr amcanion unigol. Adroddir ar ganlyniadau'r monitro drwy'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc, sy'n ddogfen y bydd angen ei diweddarau'n rheolaidd i'r pwrpas hwn (para. 20).

INTEGREIDDIO'R ASESIAD SEA A WNEIR O GYNLLUN RHEOLI'R PARC CENEDLAETHOL O FEWN Y GWERTHUSIAD O GYNLLUNIAU A RHAGLENNI ERAILL

40. Mae gan bob Awdurdod y Parc ei amserlen ei hun ar gyfer paratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a darparu ei Gynllun Datblygu Lleol. Mae ganddynt hefyd nifer wahanol o awdurdodau lleol a buddiannau rhanddeiliaid i ymgysylltu â nhw. Gan hynny, bydd angen i bob Parc ystyried sut orau i reoli rhaglen ac ymgynghoriad ei Gynllun Rheoli – a'i Asesiad SEA cysylltiedig – er mwyn osgoi dyblygu ac fel bo'r cyhoedd yn deall y berthynas rhwng y dogfennau hyn, y strategaeth gymunedol, ei

Gynllun Datblygu Lleol a'i Werthusiad Cynaliadwyedd ei hun a rhai awdurdodau eraill. Dengys Ffigwr 1 y rhaglen awgrymol ar gyfer integreiddio prosesau'r Cynllun Rheoli a'r Gynllun Datblygu Lleol.

Y Cysylltiadau rhwng Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Strategaeth Gymunedol

41. Mae strategaethau cymunedol a gynhyrchir gan awdurdodau eraill eisoes yn bodoli mewn rhannau o bob Parc Cenedlaethol, er bod rhai yn cael eu diweddarau a'u hehangu. Mae'r dogfennau hyn yn darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol, yn enwedig am yr agweddau cymdeithasol ac economaidd fel rhan o



astudiaeth gwmpasu'r SEA. Fodd bynnag, fel a nodir yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r un sy'n darparu'r strategaeth drosfwaol ac sy'n cydlynu ac integreiddio'r holl gynlluniau, strategaeth a gweithredoedd eraill lle mae'r rhain yn effeithio ar bwrpasau'r Parc. Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi canllawiau ar ba bolisiau cynllunio gan Lywodraeth y Cynulliad sydd angen eu cynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, a ddylai helpu i nodi'n gliriach beth yw'r berthynas rhwng y cynlluniau hyn (Llawlyfr Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2006).

42. Lle cynhyrchir Strategaethau Cymunedol o fewn rhannau o'r Parciau Cenedlaethol gan awdurdodau eraill yn ystod neu wedi cwblhau'r broses o baratoi'r Cynllun Rheoli a'i Asesiad SEA cysylltiedig, dylid ystyried yr opsiwn o gymhwyso amcanion yr Asesiad SEA i'r Strategaethau Cymunedol hyn.

Y Cysylltiadau rhwng Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol

43. Bydd yr Asesiad SEA / Gwerthusiad Cynaliadwyedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol yn dechrau drwy ystyried yr un amcanion amgylcheddol ag ar gyfer Asesiad SEA y Cynllun Rheoli, a'u perthynas â phwrpasau sylfaenol y Parc. Dylai hefyd fabwysiadu yr un amcanion cynaliadwyedd 'pennawd' a ddefnyddiwyd ar gyfer Asesiad SEA y Cynllun Rheoli. Fodd bynnag, er mwyn cwrdd â disgwyliadau ehangach y gwerthusiad cynaliadwyedd, bydd angen iddo ychwanegu 'is-amcanion' cynaliadwyedd mwy manwl at Asesiad SEA / Gwerthusiad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu.
44. Mae'r canllawiau ar werthuso'r Cynllun Datblygu Lleol wedi eu nodi yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (2006) a baratowyd gan Arup ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n nodi sut i weithredu Gwerthusiad Cynaliadwyedd wrth werthuso Cynlluniau Datblygu Lleol fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, gyda'r Asesiad SEA fel rhan annatod o'r broses. Mewn geiriau eraill, mae'n mynnu bod ystyriaethau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Asesiad SEA yn cael eu hystyried o fewn cyd-destun ehangach y Gwerthusiad

Cynaliadwyedd, sy'n cynnwys ystyriaethau economaidd a chymdeithasol. Mae'n cyfeirio at ganllawiau manwl gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog fel a nodir yn Sustainability Appraisal of Regional Spatial Strategies and Local Development Frameworks (Hydref 2005).

45. Bydd llawer o'r wybodaeth sydd eu hangen ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyffredin i'r ddwy broses a bydd efallai'n fanteisiol cysylltu cam cwmpasu Asesiad SEA y Cynllun Rheoli i'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd ar gyfer y Cynllun Datblygu. Mantais hyn yw caniatáu proses ymgynghori gyfochrog. Fodd bynnag, os bydd hyn yn anymarferol oherwydd gwahanol amserlenni, efallai y bydd dal yn bosibl defnyddio'r un wybodaeth ar gyfer y ddau adroddiad cwmpasu. Er bod cam cwmpasu Asesiad SEA y Cynllun Rheoli yn gallu rhagflaenu gwerthusiad cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu, ni fyddai'n syniad da iddi weithio fel arall.
46. Mae Asesiad SEA y Cynllun Rheoli a Gwerthusiad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu yn dilyn yr un camau sylfaenol sydd, mewn theori, yn caniatáu ar gyfer cael rhaglenni ymgynghori cyfochrog. Fodd bynnag, mae camau ymgynghori ffurfiol y Cynllun Datblygu, a'r ffaith bod angen ymgynghori ar opsiynau ac ar y ddogfen adnau ddrafft – ynghyd â'r angen i gael archwiliad annibynnol – yn golygu y bydd y Cynllun Datblygu Lleol a'i Werthusiad Cynaliadwyedd cysylltiedig yn cymryd mwy o amser i gyrraedd ei derfyn.

Ffigwr 1 Y Cysylltiadau rhwng Cynllun Rheoli'r Parc, yr Asesiad SEA a Phrosesau Eraill

